



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD LLUN, 23AIN MEHEFIN, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679556

rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Rhys Tudur
Menna Baines
Alan Jones Evans
Olaf Cai Larsen
Meryl Roberts

Beca Brown
Elfed Wyn ap Elwyn
Jina Gwyrfa
Gwynfor Owen
Elfed Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Beth Lawton
Anne Lloyd-Jones
Sedd Wag

Gwilym Jones
Hefin Underwood

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cyngorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol
a'r Gymraeg

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025-2026.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025-2026.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

4 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025 fel rhai cywir.

7. ADRODDIAD ADRAN OEDOLION IECHYD A LLESIANT AC ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023-2033

14 - 26

I ystyried yr adroddiad.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

27 - 56

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt armell i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad.

PWYLLGOR IAITH: 29 EBRILL 2025

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Menna Baines (Cadeirydd)
Meryl Roberts (Is-gadeirydd)

Alan Jones Evans, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Anne Lloyd-Jones, Gwilym Jones, Rob Triggs, Rhys Tudur a Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a dros y Gymraeg).

Swyddogion: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg), Nia Lewis (Ymgynghorydd Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

HEFYD YN BRESENNOL:

Eitem 5: Carys Fôn Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) a Siôn Elwyn Hughes (Uwch Swyddog Gweithredol)
Eitem 6: Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned), Anwen Davies (Rheolwr Rhanbarth y Rhaglen ARFOR) ac Osian Prys Ellis (Arweinydd Tîm Datblygu Busnesau Gwynedd)
Eitem 7: Mari Edwards (Rheolwr Dysgu a Datblygu)
Eitem 8: Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) ac Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Beth Lawton, Beca Brown, Olaf Cai Larsen, Gwynfor Owen ac Elfed Wyn ap Elwyn.

Croesawyd y Cynghorwyr Rob Triggs a Gwilym Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys.

4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2025 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD YR ADRAN TAI AC EIDDO AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 – 2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Tai ac Eiddo. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Adroddwyd bod nifer o brosiectau a chynlluniau'r Adran yn cyfrannu at amcanion strategaeth iaith y Cyngor, megis y Cynllun Gweithredu Tai. Eglurwyd bod y cynllun hwn yn cynnwys dros 30 o brosiectau sy'n anelu i fynd i'r afal â'r argyfwng tai yng Ngwynedd gan ymdrechu i sicrhau bod pobl Gwynedd yn cael mynediad at dai addas, safonol a fforddiadwy er mwyn gwella ansawdd eu bywyd. Mynegwyd balchder bod dros 8,000 o unigolion lleol wedi derbyn cefnogaeth drwy'r cynllun hwn hyd yma.

Eglurwyd bod Cynllun Cartrefi Gwag yr Adran yn mynd i'r afael â'r diffyg tai ar gyfer pobl leol. Nodwyd bod 101 o grantiau wedi cael eu dosbarthu i brynwyr tai gwag sydd â chysylltiad lleol er mwyn eu cynorthwyo i'w hadnewyddu i safon byw dderbyniol. Diweddarwyd bod y cynllun hwn wedi cael ei ehangu yn ddiweddar er mwyn cynnwys tai gwag a arferai fod yn ail gartrefi. Esboniwyd mai dim ond ar gyfer prynwyr tro cyntaf oedd y cynllun hwn yn berthnasol yn flaenorol ond er mwyn ymateb i alw mawr am gymorth y cynllun hwn gan y cyhoedd, fe'i hehangwyd ar gyfer pob math o brynwr a'u cynorthwyo i gyfarch cynnydd mewn costau deunyddiau ac adeiladu.

Cadarnhawyd bod yr Adran yn rhoi ystyriaeth drylwyr i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal ag effeithiau cydraddoldeb, ieithyddol a dyletswyddau Economaidd-Gymdeithasol o fewn y cynlluniau. Ymfalchiwyd bod yr Adran yn cael effaith bositif ar nodweddion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg drwy gynyddu'r ystod o dai sydd ar gael o fewn y Sir er mwyn ceisio cyrraedd anghenion cymunedau. Ymhelaethwyd bod 63% o drigolion Gwynedd, sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai, wedi derbyn cymorth i gael mynediad at gartrefi fforddiadwy, benthyciadau, grantiau neu ryddhad trethi. Nodwyd bod Cymdeithas Tai Adra wedi rhannu data gyda'r Adran yn ddiweddar, gan gadarnhau bod 94% o breswylwyr newydd staff yn Ninas, Llanwnda yn gallu'r Gymraeg, ac yn yr un modd, bod gan 96% o breswylwyr stad newydd yn Nhregarth sgiliau'r Gymraeg. Mynegwyd bwriad i gyflwyno adroddiad i'r Cabinet er mwyn amlygu effaith y cynllun hwn, gan ymdrechu i'w ymestyn hyd at 2028/29.

Atgoffwyd bod yr Adran yn arwain ar brosiect Gwynedd Glyd, sy'n rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd. Adroddwyd bod yr Adran yn cyflawni hyn drwy gynyddu cyflenwad o dai i bobl leol. Sicrhawyd bod hyn yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod gan drigolion Gwynedd gartrefi addas, fforddiadwy a safonol drwy denantiaeth, cymorth i brynu tŷ neu adnewyddu tai gwag. Ymfalchiwyd bod 97% o osodiadau drwy'r gofrestr tai yn mynd i rywun â chysylltiad i Wynedd, gydag oddeutu 60% yn mynd i unigolion â chysylltiad gyda'r gymuned y maent yn dymuno byw ynddi. Eglurwyd bod Polisi Gosod Tai Cyffredin yn weithredol er mwyn sicrhau bod pobl leol yn cael blaenoriaeth resymol wrth osod tai. Tynnwyd sylw bod yr Adran yn derbyn nifer o geisiadau gan grwpiau cymunedol a rhai Cyngorau Cymuned i ychwanegu amod ieithyddol fel rhan o'r broses o osod tai cymdeithasol. Eglurwyd bod yr Adran yn derbyn cyngor cyfreithiol arno ar hyn o bryd.

Cydnabuwyd bod prif systemau a ddefnyddir yn cael eu prynu gan gwmnïau allanol ac felly maent ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, sicrhawyd bod yr Adran yn datblygu apiau yn fewnol yn uniaith Gymraeg ac mae defnydd helaeth yn cael ei wneud ohonynt.

Eglurwyd bod yr Adran yn cadw cofnod o faint o bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ofyn i unrhyw un sydd yn llenwi ffurflen gais am dŷ cymdeithasol i nodi dewis iaith er diben cysylltu â nhw. Nodwyd nad yw'r system yn galluogi i'r Adran adrodd ar y wybodaeth hon ar hyn o bryd ond mae system newydd ar droed a fydd yn caniatáu rhannu'r wybodaeth. Ymhelaethwyd bod yr Adran hefyd yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth yn cael ei rannu yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf er mwyn annog a hybu defnydd yr iaith, gan sicrhau yn ogystal bod unrhyw wybodaeth a

rennir ar gyfryngau cymdeithasol yn cael ei osod fel bod y Gymraeg yn cael ei ddarllen yn gyntaf.

Mynegwyd balchder bod 88.1% o staff yr adran wedi cwblhau asesiad ieithyddol, gan gadarnhau bod 95.4% o'r aelodau staff hynny yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Nodwyd mai diffyg hyder sydd yn atal rhai unigolion rhag cyrraedd dynodiad iaith y swydd, gan fod y mwyafrif helaeth o staff yr adran yn cyrraedd lefel Hyfedredd neu Uwch yn y Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i sylwadau nad ydi person sydd yn lleol i gymuned yng Ngwynedd o reidrwydd yn meddu a sgiliau'r Gymraeg, eglurodd y Pennaeth Adran bod y data a geir am niferoedd siaradwyr Cymraeg o'r unigolion sydd wedi derbyn a'u rhannu gan y cymdeithasau tai. Ymhelaethwyd bydd cymdeithasau tai yn dod o dan Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol agos ac felly fe fydd yn ofynnol iddynt fod yn casglu data ar elfennau ieithyddol wedi hynny.

Mewn ymateb i ymholiad am eglurder am yr hyn a olygir drwy fod gyda chysylltiad gyda Gwynedd neu ardal benodol wrth ystyried gosod tai, cadarnhaodd y Pennaeth Adran bod meini prawf statudol wedi cael eu mabwysiadu o fewn y Polisi Gosod Tai. Ymhelaethwyd bod y meini prawf safonol hyn wedi cael ei addasu yng Ngwynedd er mwyn gofyn bod ymgeiswyr tai gyda chysylltiad i'r gymuned neu'r Sir. Nodwyd bod yr Adran wedi mynd i'r eithaf drwy ychwanegu'r ystyriaeth hyn i'r meini prawf gan fod pobl sydd yn chwilio am dai yn eu hardaloedd cynefinol yn derbyn blaenoriaeth dros bobl o ardaloedd eraill. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn ystyriol iawn o ran peidio cyflwyno amodau a all gael eu hystyried i fod yn wahaniaethol ymysg ymgeiswyr. Ategwyd byddai angen cyngor cyfreithiol cyn cyflwyno unrhyw addasiad pellach.

Nodwyd bod y Gwasanaeth Iechyd yn cael her i recriwtio staff mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd. Gofynnwyd i'r Pennaeth Adran a fyddai unrhyw un sydd yn symud i'r ardal ar gyfer gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd yn cael blaenoriaeth am dŷ, er gwaetha'r amod iaith, er mwyn gwasanaethau'r cymunedau. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Adran nad oes amod iaith yn cael ei ystyried wrth osod tai ar hyn o bryd ac ni fyddai'n effeithio ar eu cyfleoedd i dderbyn tŷ. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod ffactorau eraill yn gallu effeithio'r sefyllfa benodol hon megis ers faint o amser maent wedi bod yn byw yn yr ardal, gan arwain at anfantais gychwynnol wrth iddynt wneud cais am gartref.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

6. ADRODDIAD ADRAN ECONOMI A CHYMUNED AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Economi a Chymuned, Rheolwr Rhanbarth y Rhaglen ARFOR ac Arweinydd Tîm Datblygu Busnesau Gwynedd. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Manylwyd ar raglen ARFOR a ariennir gan Lywodraeth Cymru ers 2019 er mwyn datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg, ar draws gorllewin Cymru yng Ngwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gâr. Eglurwyd mai nod y prosiect yw cynnal a chreu

gwaith sydd yn galluogi pobl ifanc i ddychwelyd ac aros yn y rhanbarth i weithio tra hefyd yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg. Cadarnhawyd mai Gwasanaeth Datblygu'r Economi Cyngor Gwynedd sydd yn arwain ar y gwaith ar ran y 4 sir gan gadarnhau bod buddsoddiad o £11miliwn wedi cael ei ddarparu gan Llywodraeth Cymru dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Eglurwyd bod Cytundeb Egwyddorion wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o ymgeisio am arian drwy raglen ARFOR. Manylwyd y golyga hyn y disgwylir i fusnesau ymgymryd ag asesiad iaith gan Gomisiynydd y Gymraeg a'u bod yn gweithio tuag at y Cynnig Gymraeg. Cadarnhawyd bod hyn wedi bod yn llwyddiannus ar draws y rhanbarth a bod perthynas gref wedi ei ddatblygu gyda'r Comisiynydd. Ychwanegwyd bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth o gynyddu gwelededd y Gymraeg a mynegwyd balchder bod nifer o gwmnïau wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyn.

Tynnwyd sylw bod sesiynau 'Hac iaith' wedi cael eu cynnal ym mhob sir sydd yn disgyn o fewn rhanbarth gorllewin Cymru rhaglen ARFOR. Nodwyd bod y sesiynau hyn yn amlygu sut gall busnesau di-gymraeg ddefnyddio'r iaith o fewn ei weithrediad a'r buddion ynghlwm o wneud hynny. Yn yr un modd, adroddwyd y cynhaliwyd gwobrau Mwyaf Gymraeg y Byd ble roedd trigolion yn enwebu a gwobrwyo busnesau yr oeddent yn ystyried i fod yn Gymreig, er mwyn marchnata'r busnesau hynny sydd yn gweithredu yn Gymraeg a dwyieithog o fewn y rhanbarth.

Diweddarwyd y gobeithir cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn datblygu Addewid Busnes yr iaith Gymraeg. Eglurwyd nad oes gan y Comisiynydd y capasiti i gynnig y Cynnig Gymraeg i fusnesau bychain, gan eu bod yn ceisio dylanwadu ar fusnesau mwy. Atgoffwyd yr aelodau bod y Cynnig Gymraeg yn achrediad a ddarperir gan y Comisiynydd ar gyfer busnesau sy'n ymgeisio amdano drwy lunio polisi iaith ac yn gweithredu rhannau o'u busnes yn Gymraeg.

Ymfalchiwyd bod rhaglen ARFOR wedi llwyddo i gynnal cyfarfod rhwng swyddogion Polisi iaith pob sir o fewn y rhanbarth, er mwyn rhannu arferion da a chynnal trafodaethau parhaus am rôl y polisiâu iaith wrth gysidro'r economi a'r iaith Gymraeg.

Manylwyd ar y cynnydd a welir o'r defnydd o Gymraeg o fewn busnesau yng Ngwynedd yn sgil rhaglen ARFOR, megis Llwyddo'n Lleol a Ffrwd Mentro. Ymhelaethwyd ar gynllun grant Cymunedau Mentrus. Nodwyd bod 21 o fusnesau wedi derbyn arian o'r cynllun hwn, ac yn cwblhau'r achrediad Cynnig Gymraeg sydd yn amodol i dderbyn yr arian hwnnw. Diweddarwyd bod 11 o'r cwmnïau hynny eisoes wedi derbyn yr achrediad, gyda 5 cwmni arall yn debygol iawn o'i dderbyn yn fuan. Pwysleisiwyd bod defnydd cynyddol o'r Gymraeg i'w weld yn y busnesau sydd heb lwyddo i gyrraedd yr achrediad, megis newid enwau busnesau i fod yn uniaith Gymraeg a chyflwyno mwy o bosteri a gwybodaeth ddwyieithog.

Tynnwyd sylw bod 6 busnes wedi derbyn cyllid drwy Gronfa Her rhaglen ARFOR, sydd yn annog datblygiadau arloesol y Gymraeg yn y maes economi. Manylwyd bod rhai o'r rhain yn cynnwys Cymen a oedd yn datblygu systemau lleferydd digidol Gymraeg, Prifysgol Bangor yn ymchwilio i brosesau recriwtio dwyieithog a datblygu ap Arfer i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Diweddarwyd yr Aelodau ar weithrediadau gwasanaethau eraill o fewn yr Adran sydd yn cyfrannu at amcanion strategaeth iaith y Cyngor, megis:

- **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** – mynegwyd balchder bod y gwasanaeth wedi denu cyllideb o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn datblygu nifer o

erthyglau newydd gan awduron llawrydd o Wynedd sy'n hyrwyddo diwylliant a hanesion lleol.

- **Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio** - tynnwyd sylw bod prosiect LleCHI LleNi yn hyrwyddo treftadaeth yr ardal. Ymfalchiwyd bod y prosiect yn hyrwyddo'r Gymraeg a bod gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor er mwyn monitro gwaddol statws Treftadaeth y Byd ar effaith a gwelededd yr iaith Gymraeg yn yr ardal.
- **Morwrol** – cydnabuwyd bod recriwtio staff wedi bod yn her i'r Gwasanaeth. Pwysleisiwyd bod heriau'n codi wrth geisio recriwtio staff tymhorol i gynorthwyo'r gwasanaeth dros gyfnod yr haf sydd hefyd yn meddu â'r Gymraeg. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yr Adran wedi denu unigolion sydd yn meddu â sgiliau'r Gymraeg eto eleni gan gydnabod nad oes modd monitro defnydd o'r iaith yn y gweithle gan eu bod yn gweithio yn annibynnol.
- **Llyfrgelloedd** - pwysleisiwyd bod staff y llyfrgelloedd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol drwy sicrhau bod cydweithio clos gyda phartneriaid yn galluogi trigolion gael mynediad at lyfrau, digwyddiadau a gwybodaeth yn y Gymraeg.
- **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** - nodwyd bod recriwtio unigolion gyda sgiliau'r Gymraeg yn her i'r Adran ar adegau megis wrth gomisiynu artistiaid ar gyfer prosiectau. Cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r unigolion hynny ar gyfer eu cefnogi gyda sgiliau ieithyddol. Yn debyg, nodwyd bod yr Adran yn profi heriau i ganfod gwirfoddolwyr gyda'r sgiliau Cymraeg nad nodi nad yw'n bosibl sicrhau bod gan bob unigolyn sgiliau Cymraeg ar bob achlysur. Diolchwyd iddynt am eu diddordeb i wirfoddoli a chydwethio gyda'r Adran.

Adroddwyd bod 86.8% o staff yr Adran wedi cwblhau'r hunanasesiad ieithyddol. Fodd bynnag, eglurwyd nad yw rhai o swyddogion tymhorol a chyfnodau penodol wedi cael y cyfle i lenwi'r hunanasesiad hyd yma. Cadarnhawyd bod 95.8% yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi, gan nodi bod unrhyw aelod o staff sydd ddim yn cyrraedd y dynodiad iaith eu swyddi yn derbyn hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am ddyfodol rhaglen ARFOR, nododd y Pennaeth Adran nad oes cadarnhad ffurfiol o ddyfodol y prosiect hyd yma. Fodd bynnag, eglurwyd ei fod yn debygol y bydd y rhaglen yn cael ei weithredu am y flwyddyn ariannol gyfredol ond ar gyllideb sylweddol is – oddeutu £500,000. Ymhelaethwyd bod yr Adran yn edrych i brif-frydio elfennau o'r rhaglen i brosiectau eraill er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth yn parhau ar gyfer busnesau Gwynedd. Cadarnhawyd bod asesiad o ddatblygiadau a wnaed drwy'r cynllun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac fe fydd ar gael i'r cyhoedd yn fuan.

Mewn ymateb i ymholiad am gynnig grantiau bychan i fusnesau allu datblygu arwyddion Cymraeg a dwyieithog, cadarnhawyd na fyddai hyn wedi bodloni gofynion y rhaglen ARFOR. Eglurwyd mai prif nod y rhaglen oedd i gynorthwyo'r economi i ffynnu, a bod elfennau'r iaith Gymraeg wedi cael ei ychwanegu ato. Cadarnhawyd nad oedd modd dyrannu ariannu arian i fusnesau i ddatblygu'r iaith heb sicrhau bod cyswllt cryf gyda chynlluniau i gryfhau'r economi. Mewn ymateb i sylwadau pellach bod Mentrau Iaith Cymru yn gallu bod o gymorth gyda hyn, cadarnhaodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod eu cyllideb ar gyfer grantiau penodol o'r fath wedi dod i ben erbyn hyn.

Mewn ymateb i ymholiad am ystadegau, cadarnhaodd Arweinydd Tîm Datblygu Busnesau Gwynedd bod 72% o'r unigolion ifanc sydd derbyn cymorth gan raglen ARFOR yn nodi bod y rhaglen wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i aros yn eu hardaloedd. Ymhelaethwyd ei bod yn anodd iawn canfod ystadegau o effaith y rhaglen yn benodol ar niferoedd pobl ifanc sydd wedi dod yn ôl i'r rhanbarth i fyw a gweithio, oherwydd mae'r penderfyniad hynny yn ddibynnol ar ystod o ffactorau ac nid oes modd cadarnhau os mai'r rhaglen

ARFOR, neu ffactor arall yw'r brif resymeg am ddod yn ôl i'r ardal. Eglurwyd bod cwmni Wavehill yn creu adolygiad o'r rhaglen ar hyn o bryd gan obeithio bydd mwy o ystadegau yn cael eu cyflwyno wedi i'r adolygiad gael ei chyhoeddi.

Diolchwyd i'r Aelodau am syniadau ar sut i hyrwyddo sgiliau Cymraeg ymysg gwirfoddolwyr.

Mewn ymateb i ymholiad am sut mae'r Adran yn monitro'r busnesau hynny sydd yn derbyn achrediad Cynnig Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r gofynion, cadarnhaodd Rheolwr Rhanbarth y Rhaglen ARFOR bod Comisiynydd y Gymraeg yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Pwysleisiwyd y gall busnesau golli'r achrediad os nad ydynt yn parhau i ddilyn yr egwyddorion Cynnig Cymraeg. Cadarnhawyd bod yr Adran yn cynnig pob anogaeth a chefnogaeth i fusnesau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r achrediad ac yn cynnig cymorth gyda'r iaith Gymraeg ar bob cyfle.

Gofynnwyd i'r Adran gyflwyno adroddiad pellach am y rhaglen ARFOR yn dilyn cyhoeddi gwerthusiad y rhaglen. Mewn ymateb, croesawyd y cais gan y Pennaeth Adran gan nodi bydd y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai. Ymhelaethwyd y disgwylir derbyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru ar gyllideb y rhaglen ar gyfer 2025/26 oddeutu'r un cyfnod.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

7. ADRODDIAD CAU'R PROSIECT DYNODIADAU IAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg a thynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau y bu i'r prosiect Dynodiadau Iaith gael ei chomisiynu gan y Pwyllgor hwn yn 2015 ac yr oedd yn weithredol hyd at 2023. Eglurwyd mai diben y prosiect oedd sicrhau cysondeb a phriodoldeb gofynion ieithyddol swyddi'r Cyngor, tra bod y Cyngor yn paratoi at ofyniad statudol y Safonau Iaith a gyflwynwyd yn 2016, i gadw cofnod o lefelau iaith ei staff. Ychwanegwyd mai diben arall y prosiect oedd sicrhau bod cefnogaeth ar gael i aelodau staff er mwyn defnyddio'r iaith Gymraeg a pharhau i'w dysgu, gan leihau'r risg na fyddai staff y Cyngor yn llwyddo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i bobl Gwynedd.

Nodwyd bod pob swydd a hysbysebhir cyn i'r prosiect hwn fod yn weithredol yn nodi gofynion iaith 'rhugl' ac nid oedd cofnod manwl a pharhaus o allu ieithyddol staff y Cyngor yn cael ei gadw'n swyddogol. Ychwanegwyd bod geiriad y lefelau sgiliau iaith yn wahanol i'r hyn oedd yn cael eu defnyddio'n genedlaethol a oedd yn achosi heriau wrth ymchwilio am hyfforddiant addas ar gyfer lefelau iaith gyffelyb.

Eglurwyd bod rhan gyntaf y prosiect wedi cael ei gwblhau gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn 2016, ble addaswyd lefelau sgiliau Cymraeg fel eu bod y geiriad a ddefnyddir yn genedlaethol (Mynediad, Canolradd, Sylfaenol ac Uwch). Ychwanegwyd bod y gwasanaeth hefyd wedi addasu pob swydd o fewn y Cyngor er mwyn addasu'r gofyniad iaith ar eu cyfer yn unol â gofynion y swydd.

Adroddwyd bod ail ran y prosiect wedi cymryd lle yn 2017 ble roedd ymchwil wedi cael ei wneud ar sut i gasglu asesiadau iaith manwl a chywir ar gyfer staff, gan sicrhau bod cymorth ar gyfer cynnal lefelau sgiliau iaith neu hyfforddiant er mwyn galluogi unrhyw

aelod o staff i gyrraedd y lefelau iaith briodol ar gyfer eu swyddi. Nodwyd bod y rhan hwn o'r prosiect wedi cael ei beilota gydag adran Ymgynghoriaeth Gwynedd y Cyngor cyn ei ymestyn allan i holl adrannau eraill. Mynegwyd balchder bod hyn wedi arwain at yr Hunanasesiad Ieithyddol y gall aelodau staff ei ganfod ar yr Hunanwasanaeth mewnol, sydd yn eu hysbysu o'u lefel sgiliau iaith yn dilyn ei gwblhau ac yn rhoi cyfle i aelodau staff nodi os ydynt angen unrhyw gymorth neu datblygu hyder i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Tynnwyd sylw bod system dechnolegol bellach wedi cael ei ddatblygu er mwyn storio'r holl ymatebion i'r hunanasesiad iaith gan ddarparu data allweddol i swyddogion.

Cadarnhawyd bod y data hwn a oedd yn cynnwys lefelau iaith staff a niferoedd unigolion a oedd yn mynychu hyfforddiant iaith yn cael ei rannu gyda phenaethiaid yn chwarterol, ac yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth i'r adrannau baratoi at gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor hwn. Ymhelaethwyd bod aelod o staff o brif adrannau'r Cyngor a Byw'n lach yn eistedd ar Fforwm Dynodiadau Iaith sydd yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn rhannu arfer dda a thrafod unrhyw heriau sydd yn codi.

Tynnwyd sylw at gynllun Cyfeillion Cymraeg sydd wedi cael ei ddatblygu yn dilyn sylwadau gan aelodau staff a oedd wedi mynychu hyfforddiant iaith y Cyngor. Eglurwyd bod y cynllun hwn ynparu aelodau staff sydd yn dymuno derbyn cyfleoedd ychwanegol i ymarfer eu sgiliau ieithyddol gydag aelod o staff sydd yn hyderus y gallent gefnogi. Yn debyg, sefydlwyd 'Tip Cymraeg y Mis' sydd yn rhannu cymorth gramadegol neu dechnolegol am yr iaith Gymraeg gyda staff, gan fynegi balchder bod Nant Gwrtheyrn yn cydweithio gyda'r Cyngor i'w datblygu a'u rhannu gyda dysgwyr sydd yn mynychu'r ganolfan. Sicrhawyd bod y ddau gynllun yma yn parhau'n weithredol.

Cadarnhawyd bod Hwb Hyfforddiant Iaith wedi cael ei sefydlu yn ddigidol ar gyfer staff y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth am yr ystod o hyfforddiant sydd ar gael yn fewnol a thu hwnt.

Rhannwyd diweddariad y gobeithir cydweithio gyda chynllun Cymraeg Gwaith a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu cynllun hyfforddiant fwy eang. Gobeithir datblygu hyfforddiant penodol ar gyfer sectorau gwaith penodol, megis gofal. Ymhelaethwyd bod systemau newydd ar y gweill er mwyn sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn derbyn mynediad cyflym i ddata.

Cadarnhawyd bod nifer o ddatblygiadau a wnaed dros gyfnod y prosiect yn parhau'n weithredol a bod hyfforddiant newydd yn parhau i gael ei ddatblygu, megis hyfforddiant Cymraeg Clir a fydd ar gael i aelodau staff yn fuan.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad am wybodaeth bellach am gynllun Cyfeillion Cymraeg, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod 10 pâr o aelodau staff yn cyfarfod yn gyson ar ffurf anffurfiol. Ymhelaethwyd bod unigolion sydd yn mynychu hyfforddiant iaith yn teimlo'n fwy cyfforddus i ymarfer eu sgiliau ieithyddol gydag aelodau eraill o'u tîm. Cadarnhawyd bod y cynllun wedi arwain at gefnogaeth i ddatblygu sgiliau llafar ac ysgrifenedig sydd wedi bod yn werthfawr iawn. Ymhelaethwyd y gobeithir bydd y cynllun hwn yn parhau i'r dyfodol gan geisio canfod aelodau staff sydd yn awyddus i gymryd rhan a darparu cefnogaeth i eraill sydd llai hyderus yn defnyddio'r iaith.

Mewn ymateb i ymholiad ar y cais a wnaed i gynllun Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru am ariannu tiwtor Cymraeg yn fewnol i'r Cyngor, cadarnhaodd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod sgysiau pellach wedi arwain at y penderfyniad i beidio ariannu'r rôl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth a gynigir gan Gymraeg Gwaith wedi ehangu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Cyngor yn gobeithio cymryd

mantais o'r cyfleoedd hynny cyn creu cynllun hyfforddiant hir dymor. Tynnwyd sylw bod y sefyllfa hon yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd ystyriaeth yn cael ei roi ar gyfer cyflogi tiwtor Cymraeg mewnol os bydd yr angen yn codi.

Tynnwyd sylw bod ymdrechu i gyflogi gweithwyr dwyieithog yn y maes gofal er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn iaith y sawl sydd yn derbyn y gwasanaeth. Mewn ymateb i ymholiad ar sut gall y Cyngor gynorthwyo gofalwyr i ddysgu a meithrin y Gymraeg, cadarnhaodd y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg, bod Cynllun Camau yn gwrs hunan astudio sydd ar gael i weithwyr gofal am ddim yn eu hamser eu hunain er mwyn dysgu mwy am eirfa berthnasol Cymraeg sydd yn allweddol i'w swyddi. Pwysleisiwyd bod gwaith parhaus yn cael ei wneud er mwyn hyrwyddo cyfleoedd sgiliau iaith gyda gweithwyr gofal. Ymhelaethwyd bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynlluniau ychwanegol megis rhyddhau staff ar gyfer mynychu hyfforddiant iaith neu gynnal sesiynau mewn cartrefi preswyl fel bod yr unigolion yn y cartref preswyl yn mynychu'r hyfforddiant gyda'r aelodau staff er mwyn eu cefnogi os ydynt yn dymuno.

Yn dilyn ystyriaethau am hyfforddiant iaith ar gyfer staff ategol ysgolion Gwynedd, cadarnhaodd y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg nad oes trafodaethau mewn lle ar hyn o bryd ond cydnabuwyd bod hwn yn fwch yn y trefniadau presennol. Nodwyd bydd swyddogion yn trafod gyda Chymraeg Gwaith er mwyn canfod os oes cwrs hunan astudio ar gael i staff ategol ysgolion ei gwblhau yn eu hamser eu hunain. Ychwanegodd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu bod yr Adran Addysg wedi cadarnhau eu bod yn dymuno targedu staff ategol er mwyn sicrhau datblygiad sgiliau Cymraeg gan gydnabod bod trosiant staff uchel o fewn y maes hwn.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

8. ADRODDIAD Y TÎM ARWEINYDDIAETH A GWASANAETHAU CYFREITHIOL AR WEITHREDIAD Y POLISI IAITH A CHYFRANIAD TUAG AT WIREDDU STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2023 - 2033

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd bod y Tim Arweinyddiaeth a'r Gwasanaethau Corfforaethol yn cydweithio gyda holl adrannau'r Cyngor a phartneriaid er mwyn cyfrannu at bolisiâu, cynlluniau, prosiectau a ffrydiau gwaith sydd yn gwireddu amcanion y strategaeth iaith. Rhannwyd enghraifft o hyn wrth fanylu ar brosiect 'Mwy Na Geiriau' gan gadarnhau bod y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o fwrdd y prosiect ac wedi cael ei ethol yn Gadeirydd y bwrdd ar gyfer rhanbarth y gogledd yn ddiweddar.

Adroddwyd bod y Prif Weithredwr yn cynrychioli Cyngor Gwynedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn gyda chymorth y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Adroddwyd y gwelir newid amlwg mewn nifer o gyfarfodydd y Bwrdd sydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg, gyda'r mwyafrif helaeth o gyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar gael. Cadarnhawyd mai dyma'r unig Fwrdd o'i fath yng Nghymru sydd yn cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg a dwyieithog.

Tynnwyd sylw bod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar nifer o bartneriaethau rhanbarthol megis Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mynegwyd balchder bod y Cyngor yn llwyddo i gynnal pob agwedd o'r cyfrifoldeb hwn yn ddwyieithog gyda phwyslais yn cael

ei roi ar yr iaith Gymraeg. Ymhelaethodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol bod gwaith wedi mynd rhagddo i symud staff o Gynllun Twf Gogledd Cymru i'r gorfforaeth newydd ym mis Ebrill eleni. Eglurwyd bod y Gwasanaeth Cyfreithiol yn cydweithio gyda Cyd-bwyllgor Corfforedig er mwyn datblygu ystod o gytundebau lefel gwasanaeth hir dymor. Pwysleisiwyd bydd hyn yn golygu bydd y Gwasanaeth Cyfreithiol yn symud i ffwrdd o drefniant presennol o benodi cyfreithwyr locwm, sydd ddim yn meddu a sgiliau'r Gymraeg ond yn cael eu penodi yn sgil eu harbenigedd penodol, er mwyn datblygu timau yng Ngwynedd a all gefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforedig tra hefyd yn ymrwymo i ofynion Polisi Iaith y Cyngor.

Esboniwyd bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn Gadeirydd y Bwrdd Trawsnewid Digidol sydd yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i unrhyw ddatblygiadau systemau digidol yn y dyfodol, fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd. Ymhelaethwyd bod Asesiad Addasrwydd Digidol yn gorfod cael ei gwblhau cyn ymgymryd â systemau digidol newydd, gan gadarnhau bod ystyriaeth i'r iaith yn rhan o'r asesiad hwn.

Mynegwyd balchder bod y Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi bod yn cydweithio gyda CISCO / Webex ar gyfer datblygu system ffôn newydd i staff y Cyngor. Eglurwyd bod y system hon yn gyrru galwadau ymlaen i aelodau eraill o staff os bydd y derbynnydd mewn galwad neu gyfarfod rhithiol. Tynnwyd sylw bod y cwmni rhyngwladol hwn wedi cydweithio gyda'r Cyngor er mwyn datblygu darpariaeth Gymraeg o'r newydd ar gyfer defnydd staff y Cyngor. Pwysleisiwyd bydd y ddarpariaeth Gymraeg yma ar gael i sefydliadau a chwmnïau eraill sydd yn dymuno ymgymryd â'r system oherwydd cydweithrediad y cwmni gyda'r Cyngor.

Cadarnhawyd bod y Tîm Arweinyddiaeth yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Fforwm Iaith a ddatblygwyd gan Uned Iaith y Cyngor yn ogystal â'r Grŵp Llywio a sefydlwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mynegwyd balchder bod aelodaeth y Cyngor ar y Grŵp Llywio yn cael ei weld fel ymgynghorydd arfer dda ymysg y sefydliadau eraill.

Adroddwyd bod niferoedd staff y Tîm Arweinyddiaeth a'r Gwasanaeth Cyfreithiol gynyddu yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i swyddogion y tîm Busnes a Chomisiynu a oedd yn rhan o wasanaethau Oedolion drosglwyddo i fod dan ofal y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod 95.6% o staff wedi llwyddo i gwblhau'r hunanasesiad iaith. Cadarnhawyd mai dim ond 5 aelod o'r staff sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad sydd ddim yn cyfarch anghenion iaith eu swyddi ond bod pob ymdrech yn cael ei wneud i ddysgu'r iaith drwy hyfforddiant iaith a'r cynllun Cyfeillion Cymraeg.

Amlygwyd bod y Gwasanaeth Etholiadol wedi ehangu cynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff cenedlaethol megis Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Eglurwyd bod cynrychiolaeth Cyngor Gwynedd ar gyrff eraill yn gatalydd i ddatblygiadau ieithyddol y tu hwnt i'r Cyngor gan arwain at newid cenedlaethol. Mynegwyd balchder bod newid yn cael ei weld ar systemau etholiadol megis ffurflenni allweddol a meddalwedd prosesau, wrth iddynt droi i fod yn ddwyieithog. Cadarnhawyd bod sefydliadau eraill gyda'r hyder i ddefnyddio fwy ar yr iaith Gymraeg wrth i'r datblygiadau hyn gael eu gweithredu gan gyflymu'r raddfa bod y Gymraeg yn derbyn sylw o fewn y maes hwn.

Rhannwyd enghreifftiau o rwystrau sydd yn wynebu'r Tîm Arweinyddiaeth megis derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg. Cydnabuwyd bod y sefyllfa hon wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf ond mae'r Tîm yn derbyn gohebiaeth gyson yn uniaith Saesneg gan rhai sefydliadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at her wrth gynnal cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd ble mae tueddiad i sgysiau droi i'r Saesneg yn hytrach na sicrhau bod cyfieithydd ar gael i ganiatáu trafodaethau Cymraeg. Ymhelaethodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol bod heriau recriwtio yn y gorffennol

wrth i'r Gwasanaeth geisio canfod unigolion cymwysedig ac arbenigol ac nid oedd y rhain o reidrwydd yn siarad Cymraeg wrth i'r Gwasanaeth benodi cyfreithwyr locwm i gyflawni gwaith byrdymor. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i benodi unigolion arbenigol ac sy'n meddu a'r sgiliau ieithyddol priodol erbyn hyn.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Mewn ymateb i ddiweddariadau bod yr Adran Tai ac Eiddo yn derbyn cyngor cyfreithiol wrth ystyried cyflwyno amod ieithyddol i'r Polisi Gosod Tai, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol bod y gwasanaeth yn gefnogol o'r addasiad hwn. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod ymchwil cyfreithiol yn cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn ystyried os oes modd ychwanegu'r amod hwn i'r prosesau. Ymhelaethwyd bod y Prif Weithredwr a'r Adran Tai ac Eiddo yn ystyried Polisi Gosod Tai yn ei gyfanrwydd er mwyn cryfhau'r elfen ieithyddol os yn bosib.

Tynnwyd sylw bod Is-grŵp Iaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn mynd i'r afael â herio mythau ieithyddol. Mewn ymateb i ymholiad am fanylder, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod mythau ieithyddol pob sefydliad y Bwrdd yn amrywiol. Rhannwyd myth enghreifftiol bod angen sgiliau Cymraeg o safon academiaidd uchel er mwyn bod yn gyflogedig gyda Chyngor Gwynedd. Pwysleisiwyd bod angen herio'r myth hwn er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael eu penodi i rolau a bod dealltwriaeth yn cael ei rannu bod sgiliau ieithyddol yn amrywio yn unol â gofyniad y rôl benodol mae unigolion yn ymgeisio amdanynt. Ymhelaethwyd bod myth cyffredin arall ymysg y sefydliadau megis dirywiad mewn hyder gweithlu i siarad Cymraeg yn y gweithle o'i gymharu â Chymraeg anffurfiol. Pwysleisiwyd mai nod y prosiect hwn yw amlygu bod cyfleoedd i bobl ddefnyddio a datblygu sgiliau ieithyddol yn y gweithle.

Mewn ymateb i ymholiad am yr her a gyflwynir drwy ddatblygiadau deallusrwydd artiffisial, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod yn un o flaenoriaethau anorfod y Cynllun Digidol. Eglurwyd bydd Rhwydwaith Rheolwr y Cyngor yn derbyn diweddariad ar esblygiad deallusrwydd artiffisial a'r defnydd posib gall ei gael ar weithrediad gwasanaethau. Sicrhawyd bod y Gymraeg yn ganolog i holl drafodaethau ar ddefnydd deallusrwydd artiffisial wrth iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y dyfodol.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 11:45yb.

CADEIRYDD

Adroddiad adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033

Dyddiad	04.06.2025
Adran	Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdur	Nia Wyn Evans a Sian Iolen Pritchard

1. Pa bolisiâu a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)				
Gweler isod enghreifftiau o sut mae'r Gwasanaeth Cymdeithasol yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith:				
Polisiâu	a	chynlluniau	strategol	perthnasol
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hyrwyddo llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalmwr y mae angen cymorth arnynt. Hyn yn sail i holl waith y Gwasanaeth. Mwy na geiriau - Cafodd 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' ei gyhoeddi yn 2016. Dylai camau i fabwysiadu Mwy na geiriau a'i roi ar waith mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant helpu i wella ansawdd y gofal a'r canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog. Nod Mwy na geiriau yw creu lefel uwch o gydnabyddiaeth ymhlith darparwyr gwasanaethau bod defnyddio'r Gymraeg nid yn unig yn fater o ddewis ond hefyd yn fater o angen i lawer o bobl. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau, felly, gyfrifoldeb i ddiwallu'r anghenion hyn. Polisi Caffael - Mae Polisi Caffael Cynaliadwy a Strategaeth Caffael eisoes yn bodoli ac yn cynnwys gofynion iaith. Bydd y polisi a'r strategaeth yn cael eu diweddarau yn ystod 2025. Cymraeg 2050 – 'Miliwn o siaradwyr' – Mae Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi dull hirdymor y Llywodraeth o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae tri prif thema, sef 'cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg', 'cynyddu defnydd o'r Gymraeg' a 'creu amodau ffafriol'. Rydym yn gweithio yn gyson tuag at geisio hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Mae 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn un o brif nodau llesiant y Ddeddf. Cynllun Cydraddoldeb 2024 – 2028 - Pwrpas y cynllun cydraddoldeb yw lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb a phobl sydd ddim yn rhannu un o'r nodweddion. Mae amcanion y cynllun yn cyffwrdd â phob maes gwaith o fewn y Cyngor, ac yn rhoi fframwaith yn ei le i wella tegwch o fewn y sefydliad ac i sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl anghenion. Mae'r Gymraeg yn ganolog i holl agweddau'r cynllun. Polisi Sicrwydd Ansawdd - Mae gwaith ar y gweill i lunio polisi Sicrwydd Ansawdd i'r Adran a fydd yn nodi'r anghenion a disgwyliadau ieithyddol. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd 2022-2032 - Mae Adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg				

mewn Addysg ac yn sgil hynny gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan sicrhau bod cyfleoedd ar bob cyfnod ym mywyd unigolyn i ddysgu Cymraeg ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn gyfrifol am arwain ar sicrhau darpariaeth addysg feithrin (10 awr yr wythnos i blant tair oed) a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant dwy oed).

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor, gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain ar brosiectau i 'Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd'. Mae'r holl brosiectau dan Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033 yn cyfrannu at y gwaith. Mae gwaith Strategaeth Iaith Gwynedd wedi ei rannu yn 5 maes gweithredu, ac rydym hefyd yn dangos sut mae amcanion ein strategaeth yn cyfrannu at 3 prif faes strategaeth Cymraeg 2050.
- **Ymchwil** - Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn dadansoddi a rhannu gwybodaeth am sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y sir, er mwyn llywio penderfyniadau a pholisïau ar draws y Cyngor gan gynnwys Cynllun y Cyngor.
- **Gwynedd Yfory - Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir.**

Mae cyfleoedd chwarae yn bwysig i ddatblygiad plentyn, ag mae'r Uned Blynnyddoedd Cynnar yn ariannu darparwyr sydd ar Fframwaith Darparwyr Gweithgareddau i gynnal amrywiaeth o sesiynau chwarae ar draws y Sir, a rhain i gyd yn Gymraeg neu'n ddwy-ieithog.

Mae Trelar Chwarae hefyd yn mynd i leoliadau ar draws y Sir yn ystod gwyliau ysgol i gynnal sesiynau chwarae, am ddim, i blant hyd at 12 oed. Mae staff Meithrinfa Plas Pawb a staff yr Uned yn darparu'r gweithgareddau yn Gymraeg.

- **Gwynedd Llewyrchus - Cadw'r Budd yn Lleol**

Mae prosiect Cadw'r Budd yn Lleol yn ceisio uchafu'r budd lleol a thrwy hyn yn hyrwyddo a datblygu'r iaith.

Mae'r Uned Blynnyddoedd Cynnar yn sicrhau bod unrhyw tendrau gofal plant yn mynd i ddarparwyr gofal plant y Sir ymgeisio, gyda holiadur sgiliau Cymraeg yn rhan o'r meini prawf.

Gyda grantiau Llywodraeth rydym yn archebu adnoddau, llyfrau ag ati gan gwmnïau lleol, ag yn annog darparwyr gofal plant i ddefnyddio unrhyw gyllideb grant i archebu gan cwmnïau lleol.

- **Gwynedd Ofalgar** - Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.

Mae'r gefnogaeth mae'r Uned Blynnyddoedd Cynnar yn ei roi i darparwyr gofal plant y Sir yn allweddol i sicrhau gofal ag addysg cynnar o'r safon uchaf.

- **Gwynedd Gymraeg** - Mae 'Gwynedd Gymraeg' yn ffrwd gwaith o Gynllun y Cyngor, gyda'r Uned Blynnyddoedd Cynnar yn sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg Feithrin (10 awr

yr wythnos i blant tair oed) a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg (12.5 awr yr wythnos i blant dwy oed) yn trochi'r plant yn y Gymraeg.

- **Gwynedd Werdd** - Mae staff yr Uned Blynnyddoedd Cynnar yn annog darparwyr gofal plant ag Addysg Feithrin i ailgylchu, i beidio archebu adnoddau plastig (un defnydd) i ddefnyddio siopau elusen ar gyfer adnoddau, dodrefn ag unrhyw offer addas sydd ei angen yn y lleoliad.

Blaenoriaeth Gwynedd Ofalgar:

- **Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol**
Byddwn yn moderneiddio ein cartrefi gofal, yn diweddarau ein hadnoddau cymunedol ac yn ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i drigolion Gwynedd.

- **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**
Byddwn yn galluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd gorau cyn hired a phosib o fewn eu cymunedau'n lleol.

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**
I sicrhau ein bod yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae'n hollbwysig ein bod yn medru newid ein diwylliant a sicrhau ein bod yn cydweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau gofal ac iechyd cynhwysfawr i'r dyfodol.

- **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth**
Byddwn yn hyrwyddo cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth.

- **Llechan Lân**
Byddwn yn paratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth; ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion er mwyn deall ac amlygu y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig a fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.

- **Cefnogi Llesiant Pobl**
Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd ac mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethgu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach. Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w hanghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y nesaf.

- **Cynllun Awtistiaeth**
Mae plant, pobl ifanc ac oedolion awtistig yn ei chael hi'n anodd cael y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt, yn enwedig yn y Gymraeg. Byddwn felly yn gwella'n darpariaeth a'i gwneud hi'n haws i unigolion a'u teuluoedd i drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.

- **Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.**
Rydym am wella profiadau'r plant sydd yn ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd

at ddau o blant fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Iaith y Blynyddoedd Cynnar

Fframwaith Darparwyr Gweithgareddau - mae rhestr o ddarparwyr sydd ar y Fframwaith hwn wedi cwblhau holiadur sgiliau Cymraeg, ag yn gallu darparu gweithgareddau yn Gymraeg, neu ddwyieithog.

Rhestr Darparwyr Gofal Plant Cymeradwy – mae'r darparwyr gofal plant sydd wedi cymeradwyo wedi cwblhau holiadur sgiliau Cymraeg, ag yn darparu gofal plant yn Gymraeg, neu ddwyieithog. Unrhyw darparwr sydd ddim yn cael eu cymeradwyo oherwydd sgiliau iaith yn cael eu cyfeirio am gefnogaeth:


- [Cynllun CAMAU](#) i annog gweithlu'r sector gofal plant i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg
- [Cynllun Croesi'r Bont](#) (Mudiad Meithrin) i drochi'r Gymraeg o fewn cylchoedd meithrin a chynyddu pontio ieithyddol gydag ysgolion. Mae 17 lleoliad ar y cynllun ar hyn o bryd.

Iaith Dysgu

Mae sicrhau cyfleoedd dysgu cysylltiedig i waith, megis prentisiaethau, yn gallu bod yn heriol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr addysg bellach i ddarparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae prentisiaethau gwaith cymdeithasol yn brin yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Academi Gofal yng Ngwynedd i ddarparu llwybr gyrfa broffesiynol glir, gan gynnwys hyfforddi a chymhwyso drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r strategaeth hefyd yn annog mwy o staff y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg a gwella eu sgiliau iaith. Ers dechrau 2023, mae 35 aelod staff wedi bod ar gyrsiau iaith, gan gynnwys cyrsiau dysgu'r iaith o'r newydd, cyrsiau cynyddu sgiliau iaith, a chysiau gloywi iaith. Mae rhyddhau amser staff rheng flaen ar gyfer hyfforddiant iaith yn heriol oherwydd heriau recriwtio, ac mae'r Adran Oedolion wedi profi anawsterau wrth geisio darparu cyrsiau Cymraeg i staff mewn cartref preswyl.

Nifer o'r gweithlu sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant iaith



Byddwn yn rhoi mwy o sylw i ddatblygiad sgiliau Cymraeg ymysg y gweithlu, yn enwedig oherwydd heriau recriwtio gweithlu gofal ac arbenigol. Mae'r mater o orfodi hyfforddiant iaith a sicrhau gwelliant o fewn cyfnod penodol wedi cael ei godi mewn cyfarfod o Grŵp Mwy na Geiriau Gwynedd, ac mae trafodaethau'n parhau i benderfynu ar y ffordd ymlaen. Pwysig yw nodi ein bod wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio cyflogi staff asiantaethau, gan nad oedd modd sicrhau gweithlu Gymraeg, felly mae'n bwysig ein bod yn rhoi amser digonol i hyfforddiant a chefnogi ein staff i siarad y Gymraeg.

Iaith

y

Gymuned


Mae Gwynedd yn sir sy'n enwog am ei chanran uchel o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 64.3% o'r boblogaeth dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg, sef 73,558 o bobl allan o 114,312. Mae Gwynedd yn cynnwys rhai o gadarnleoedd cryfaf y Gymraeg, felly mae'n hynod bwysig fod Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn gallu ymateb i hynny.

Yn

ôl

Cyfrifiad

2021:



Iaith a Gwaith

Rydym eisoes wedi cyfeirio at yr heriau o safbwynt sgiliau iaith ein gweithlu ac anawsterau recriwtio, a gellid ailymweld â'r un wybodaeth mewn perthynas ag amcanion y strategaeth iaith i fod yn mynd tu hwnt i ofynion Safonau'r Gymraeg gan ganolbwyntio ar gynyddu defnydd er mwyn gallu profi'r angen yn fwy effeithiol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn rhan o gynllun ymchwil ARFer gan Brifysgol Bangor, sy'n edrych ar sut mae modd dylanwadu ar arferion ieithyddol timau gwaith. Mae cyfathrebu'n ganolog i'r gallu i ddeall anghenion unigolion ac ymateb iddynt. Er bod y timau gwaith cymdeithasol yn hyderus yn eu gallu i ddarparu cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw mesur llwyddiant yn hawdd. Mae amgylchiadau lle mae'n rhaid i oedolion neu blant gael eu lleoli mewn lleoliadau lle nad oes darpariaeth Gymraeg, ac mae cefnogaeth Gweithwyr Cymdeithasol yn hollbwysig yn y sefyllfaoedd hyn.

Mae'r strategaeth "Mwy na Geiriau" yn bwysig i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal, gan gynnwys cynnig rhagweithiol i adnabod yr angen am wasanaethau Cymraeg a'u darparu yn ddiofyn. Mae grŵp bychan wedi ei sefydlu i arwain ar y gwaith sy'n deillio o gynllun 5 mlynedd diweddarar Llywodraeth yn y maes yma.

Mae'r ddwy Adran, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar y wefan gorfforaethol. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu at ymgyrchoedd penodol i hybu defnydd o'r Gymraeg, megis Galw Gofalwyr neu ymgyrch Maethu Cymru.

Rhaid pwysleisio'r angen i gefnogi'r sector breifat i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys cymalau iaith o fewn cytundebau gofal cartref a chytundebau preswyl a nyrsio. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau rhoi sylw i gymalau iaith o fewn cytundebau gofal oedolion a plant er mwyn sicrhau eglurder a'u cryfhau i gyd-fynd ag egwyddorion fframwaith "Mwy na Geiriau".

Ymchwil a Thechnoleg

Gwyddom fod darpariaeth technoleg yn y Gymraeg yn gallu creu problem, boed hynny gan nad yw ar gael neu safon yr iaith, ond rhaid nodi pa mor hanfodol ydi technoleg yn ein bywyd dydd i ddydd. Credwn hefyd fod technoleg yn ganolog i ateb yr her o alw cynyddol yn y maes gofal, gweler isod ein prif llif gwaith parthed ag ymchwil a thechnoleg.

1. AskSara:

- Meddalwedd sy'n darparu gwasanaeth therapydd galwedigaethol rhithiol i alluogi oedolion, plant a'u teuluoedd i gael cyngor drwy'n gwefan ar ffyrdd y gallent geisio cynorthwyo eu hunain o ddydd i ddydd.
- Cyflwynwyd y system yng Ngwynedd wedi cydweithio â'r cwmni i gael y Gymraeg i safon da.
- Mae'r system hunan asesu, yn dilyn ein cydweithio â'r cwmni, nawr ar gael yn Gymraeg i bawb drwy Gymru.
- 'Helpu'n Hun' fydd enw'r system yng Ngwynedd.

2. Ap AiDi:

- Ap wedi'i gomisiynu i gefnogi gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc.
- Mae'r ap yn darparu cerdyn adnabod, gwybodaeth ddefnyddiol, a dangos gostyngiadau mewn siopau lleol i ofalwyr. Law yn llaw a fod yn arf cyswllt â'r ysgol.
- Dyma'r unig ap dwyieithog o'i fath ac o ganlyniad mae trafodaethau'n digwydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol gyda'r bwriad i awdurdodau eraill fabwysiadu'r ap hefyd

3. Teleofal:

- Bydd offer digidol teleofal newydd yn cael ei anfon erbyn Rhagfyr 2025.
- Roedd yn amod cytundebol gyda'r cwmni darparu fod y dechnoleg ar gael drwy'r Gymraeg.
- Rydym fel tîm teleofal yn gweithio gyda'n darparwr offer digidol, Chiptech, i gyfieithu'r côd yn yr unedau teleofal er mwyn cael uned sydd â'r gallu i siarad yn y Gymraeg.
- Mae'r dechnoleg fodern ddiweddaraf sydd yn cael eu datblygu yn y maes gofal yn aml yn cael ei datblygu gan gwmnïau mawr (e.e. Amazon), ac mae galluogi defnydd o'r dechnoleg yma yn y Gymraeg yn her.

4. Grŵp Mwy na Geiriau:

- Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r anawsterau ieithyddol sy'n bodoli wrth geisio gweithio'n amlddisgyblaethol gyda thimau staff lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn amrywio. Bydd trafodaethau gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â heriau ieithyddol.
- Datblygu 'plug-in' i alluogi gweithwyr proffesiynol i weld fersiwn wedi'i chyfieithu wrth gofnodi ar bas data gofal cymdeithasol.

	○ Fe grëwyd nifer o fideos Cymraeg a Saesneg er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Mwy Na Geiriau'n y gweithlu.						
5. Ap Niwro	○ Ap rhyngweithiol 'Niwro' ar gyfer unigolion awtistig/ ND, eu teuluoedd, bobl broffesiynol a'r cyhoedd i gael mynediad i wybodaeth, cyngor ag arweiniad.						
6. Taliadau Uniongyrchol.	○ Fe gymerodd y Gwasanaeth Cymdeithasol gyfrifoldeb am y gwasanaeth yma yn ddiweddar gan felly drawsnewid y gwasanaeth Cymraeg. Er enghraifft, bellach mae bob sgwrs yn cychwyn yn y Gymraeg.						
7. Maethu	○ Dros y misoedd diwethaf rydym wedi ail edrych ar ddarpariaeth ar gyfer rhieni maeth ac wedi buddsoddi yn y cynnig, law yn llaw â hyn rydym hefyd wedi buddsoddi mewn lleoliadau Maethu yng Ngwynedd yn hytrach na lleoliadau asiant tu allan i Wynedd. Bydd hyn yn arwain at blant Gwynedd yn aros yn eu sir ac yn cael eu meithrin yn y diwylliant Cymreig.						
8.	<table><tr><th>Grwpiau</th><th>Dementia</th><th>Actif</th></tr><tr><td colspan="3"> ○ Mae gan Dementia Actif bresenoldeb ar draws Gwynedd bellach gan sicrhau sesiynau i bobl yn y Gymraeg. Mae Dementia Actif yn cynnig cyfleoedd gweithgaredd corfforol grŵp i gefnogi ac ehangu ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia, mae'r gweithgareddau yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, cynghrair Boccia, gweithgareddau ar-lein a llawer mwy. </td></tr></table>	Grwpiau	Dementia	Actif	○ Mae gan Dementia Actif bresenoldeb ar draws Gwynedd bellach gan sicrhau sesiynau i bobl yn y Gymraeg. Mae Dementia Actif yn cynnig cyfleoedd gweithgaredd corfforol grŵp i gefnogi ac ehangu ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia, mae'r gweithgareddau yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, cynghrair Boccia, gweithgareddau ar-lein a llawer mwy.		
Grwpiau	Dementia	Actif					
○ Mae gan Dementia Actif bresenoldeb ar draws Gwynedd bellach gan sicrhau sesiynau i bobl yn y Gymraeg. Mae Dementia Actif yn cynnig cyfleoedd gweithgaredd corfforol grŵp i gefnogi ac ehangu ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia, mae'r gweithgareddau yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, cynghrair Boccia, gweithgareddau ar-lein a llawer mwy.							
9. Mosaic	○ Un o'r newidiadau fwyaf blaenllaw a ddaw yn y flwyddyn nesaf i'n gweithlu yw trosglwyddo system cofnodi mewnol y Gwasanaeth o WCCIS i Mosaic. ○ Roedd Mosaic yn system oedd ar gael yn genedlaethol yn uniaith Saesneg. Roedd Cyngorau ar draws y ffin yn ei defnyddio eisoes a felly gwyddom am ei llwyddiant ond bu i Gyngor Gwynedd fod yn flaenllaw yn sicrhau fod y system yn mynd i fod ar gael yn y Gymraeg. Bu cryn trafodaethau a gwnaethpwyd yn glir fod rhaid i'r system weithredu'n y Gymraeg cyn y byddem yn cytuno i'w brynu. ○ Diolch i'r gwaith yma bydd cyfle i siroedd eraill yng Nghymru'n elwa o'r system yn y Gymraeg.						
2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?							
Dros y flwyddyn nesaf bydd gwaith parhaus yn digwydd yn y Gwasanaeth er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym fel Cyngor yn gweithredu yn y man cyntaf yn y Gymraeg, ac mae'n bwysig ein bod ni yn parhau i wneud hynny wrth hefyd bwysleisio'r angen i godi hyder a gallu ein staff yn yr iaith. Yn ogystal, bydd cynnig rhagrithiol i gefnogi staff i wella eu sgiliau cyfathrebu'n ysgrifenedig yn y Gymraeg. Bydd y Gwasanaeth Cymdeithasol cyfan yn parhau gyda'i hymdrech o baratoi cyfathrebu clir ym mhob maes o'u gwaith, boed hynny ar gyfer y cyhoedd neu ar gyfer staff. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i'n tudalennau ar wefan gorfforaethol y Cyngor, yn paratoi gwybodaeth gyfredol a chywir							

i'n defnyddwyr gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth a bydd hyn oll yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd gwelliannau ym myd Teleofal, dan arweiniad yr Adran Fusnes a'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant yn sicr yn codi statws yr iaith. Gyda gwelliannau ar y ffordd cyn ddiwedd y flwyddyn. Rhaid hefyd pwysleisio gwaith gweithwyr Cefnogol Dementia. Maent yn cynnig gwasanaeth a chefnogaeth Cymraeg ar draws y sir. Mae siarad yn eich mamiaith tra'n byw â Dementia yn holl bwysig a gobeithiwn ddatblygu y gwaith yma ym mhellach yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Wrth ystyried Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd byddwn yn gobeithio datblygu y prosiect grŵp tai bychan ym mhellach er mwyn cynyddu ein cynnig o lety lleol i blant mewn gofal. Bydd hyn yn codi statws y Gymraeg gan y byddwn yn gallu sicrhau y bydd plant a phobl ifanc ein sir yn cael y cyfle i aros yng Ngwynedd a'i meithrin yn y diwylliant Cymreig.

Yn ail bydd yr Ap Niwro yn cael ei hyrwyddo'n 'mhellach er mwyn rhoi cyfle rhyngweithio i drigolion y Sir a hynny yn y Gymraeg. Mae rhoi cyfleon am wybodaeth o'r fath yn y Gymraeg yn sicr yn codi statws yr iaith.

Wrth ystyried yr Uned Blynnyddoedd Cynnar mae ganddynt lu o weithgareddau i godi statws yr iaith. Yn gyntaf, podlediad Mam, Dad a Magu - cyfres o bodlediadau uniaith Gymraeg er mwyn helpu teuluoedd ar y daith drwy blynnyddoedd cychwynnol ac allweddol plentyndod. Edrych ar gynhyrchu rhagor o bodlediadau ar bynciau nghylch rhai o'r heriau cyffredin mae rhieni i fabis a plant bach yn eu hwynebu.

Yn ail mae'r trelar Chwarae – cynnal rhagor o sesiynau chwarae, am ddim, i plant a theuluoedd yn ystod y gwyliau ysgol. Bydd darparu'r sesiynau yn y Gymraeg yn hybu defnydd o'r iaith. Ceir hefyd hyfforddiant allanol i leoliadau gofal plant- Sgyrsiau mewn ystafelloedd 'break out' ar hyfforddiant yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Hyn oll heb anghofio sgyrsiau gydag ymarferwyr di hyder mewn cynnal sgwrs gydag oedolion mewn lleoliadau yn cael ei cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r adran fusnes yn ymchwilio i adnodd newydd o gasglu data. PERCCI (Person-Centred Community Care Inventory) yn holiadur byr sy'n helpu i fesur ansawdd gofal o safbwynt yr unigolyn sy'n ei dderbyn. Mae'n cynnwys 12 cwestiwn sy'n cael eu sgorio gan yr ymatebydd, ac wedyn mae'r pwyntiau yn cael eu cyfrif i greu sgôr cyffredinol. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cyd-gynllunio gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dderbyn gofal, ac mae o wedi'i brofi'n drylwyr er mwyn sicrhau effeithiolrwydd. Mae hanner yr holiadur yn canolbwyntio ar y gweithwyr gofal sydd wedi bod yn helpu'r unigolyn, tra bod yr hanner arall yn edrych ar y gofal a'r cymorth gyfan. Mae fersiwn Gymraeg ar gael, ac byddem yn falch o allu cynnig y gwasanaeth yma trwy gyfrwng y Gymraeg, a'i ddosbarthu fel bod pawb yn gallu cymryd rhan yn y ffordd sy'n teimlo'n naturiol iddyn nhw.

Yn olaf rydym hefyd wedi sicrhau fod gan bob plentyn sydd yn byw y thu allan i Wynedd neu y thu allan i Gymru eiriolwr Cymraeg. Mae hyn ar gyfer plant mewn gofal maeth neu gofal preswyl. Mae'r gallu i drafod yn y Gymraeg yn holl bwysig a theimlwn fod y ddarpariaeth yma yn ei gwneud hi'n haws i'r plentyn drafod. Yn yr un modd rydym wedi mynnu fod y bwrdd rhanbarthol yn cynnig darpariaeth Cymraeg ar gyfer asesu rhieni. Gwynedd oedd yr unig sir i fynnu cael y ddarpariaeth yma, sydd yn wir esiampl o godi statws yr iaith.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft. Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae Cynllun Digidol y Cyngor yn nodi: 'Mae rhan flaenllaw i'r Gymraeg ym mhob datblygiad digidol, gyda phob datblygiad mewnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog, heb eithriad, a'r gosodiad diodyn yn y Gymraeg. Mae priod-le i'r Gymraeg ym mhob datblygiad, ac fe adlewyrchir hyn yn yr Asesiad

Addasrwydd Digidol fydd yn gam gorfodol cyn bod unrhyw un o adrannau'r Cyngor yn caffael system neu wasanaeth digidol'.

Gyda hyn mewn cof rydym fel Gwasanaeth Cymdeithasol yn ceisio sicrhau fod unrhyw dechnoleg yr ydym yn ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal ar gael yn Gymraeg ond mae hyn yn creu heriau. Yn aml, mae'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael yn arbenigol iawn ei natur ac ar gael yn Saesneg yn unig. Rydym yn ceisio cydweithio gyda chwmnïau i ddatblygu yn Gymraeg ond yn ei chael yn anodd ennyn y diddordeb i wneud hynny oni bai fod ffynhonnell ariannol ychwanegol ar gael iddynt. Enghraifft berffaith o hyn yw Magic Notes.

Technoleg sy'n galluogi ni i gymryd cofnodion yw 'Magic notes', ac mae'n defnyddio AI i wrando ar sgwrs asesiad er enghraifft a theipio nodiadau'r gweithiwr cymdeithasol fyny mewn arddull cyson sy'n cyd-fynd efo gofynion y ddeddf. Nid yw'n rwystro ni rhag defnyddio'r Gymraeg fel petai, ond mae safon y Gymraeg yn yr AI tu cefn i'r system wedi golygu nad ydym wedi gallu buddsoddi ynddo, ac o ganlyniad mae'r adran yn methu allan ar fanteision y dechnoleg e.e. arbed oddeutu 40-50% o amser gweinyddol gweithwyr cymdeithasol.

Enghraifft arall yw Meddalwedd 'Blossoms' ar gyfer meithrinfa Plas Pawb – nid oes meddalwedd arbenigol Cymraeg ar gael i ddarparwyr gofal plant. Mae manylion a gwybodaeth yn cael eu cofnodi yn y Gymraeg ond o dan penawdau Saesneg. Rydym wedi annog i'r cwmni sefydlu gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru ar yr App, hynny wedi digwydd yn ddiweddar.

Rhaid cofio hefyd am hyfforddiant Arbenigol ar lein, mae nifer o gyrsiau arbenigol yn y maes Blynyddoedd Cynnar ond ar gael yn uniaith Saesneg. Rydym yn ceisio goresgyn hyn drwy hyfforddi staff mewnol i gael arbenigedd yn y maes, fel nad oes angen prynu'r gwasanaeth yn y Saesneg yn y dyfodol.

Er hyn, gobeithiwn weithio ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf yn y gobaith y gallwn oresgyn y problemau ieithyddol.

4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol? Unrhyw ddata arall perthnasol

Gwyddwn diolch i'r Cyfrifiad yng Nghymru (2021) fod canran uchaf o bobl, tair oed a hŷn, sy'n gallu siarad Cymraeg yn byw yng ngogledd-orllewin Cymru, gyda 64.4% yng Ngwynedd. Dyma'r trigolion yr ydym ni yn wasanaethau. Mae rhan helaeth o Weithiwr Cymdeithasol yn siarad Cymraeg, yn unol a gofynion swyddi Cyngor Gwynedd, ac felly mae modd i'n defnyddwyr gwasanaeth dderbyn gwasanaeth drwy eu iaith dewisol.


Oedolion, Iechyd a Llesiant:

Yn ystod asesiad cychwynnol gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bydd defnyddiwr gwasanaeth yn cael y cyfle i lenwi dogfen 'Beth sy'n bwysig?'. Yn y ddogfen hon bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn nodi ffafriaeth iaith, yn ogystal a gofyn os wnaeth yr gweithiwr/asesydd gychwyn y sgwrs yn y Gymraeg. Mae cyfle hefyd i egluro y rhesymau dros beidio cynnal yr asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y wybodaeth yma ei gadw ar ffeil yr unigolyn.

Rydym wedi adolygu ac addasu ein ffurflen asesu yn ddiweddar i gryfhau ein gallu i gofnodi dewis iaith a sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion Mwy na Geiriau

Plant a Chefnogi Teuluoedd:

Yn yr un modd mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn gweithredu. Ceir y wybodaeth yma ei gasglu yn ystod yr asesiad cychwynnol. Mae’r Cyfrifiad Plant blynyddol ar gyfer 2023/24 yn nodi bod 330 o blant (3 oed drosodd) wedi dewis Cymraeg fel eu iaith dewisol allan o 814 (41%).



Mae’r Uned Blynyddoedd Cynnar yn gweithredu ychydig yn wahanol. Ceir llinell ffôn genedlaethol sydd yn Cynnig Gofal Plant Cymru. Maent yn ymateb i alwadau ffôn gan rieni a darparwyr gofal plant ar draws Gwynedd, Môn a Chonwy. Yn ystod y 60 diwrnod olaf mae 122 o alwadau ar y llinell gymorth Cymraeg, a 331 ar y llinell gymorth Saesneg. O’r rhai sydd yn galw ar y llinell gymorth Saesneg, mae tua 50% yn siarad Cymraeg unwaith maent yn deall bod y swyddog sydd wedi ateb yn siaradwr Cymraeg.

Ceir hefyd Dechrau’n Deg a Gofal Plant 2 Oed – mae'r gwasanaethau yma yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg yn unol â pholisi iaith Cyngor Gwynedd. Erbyn hyn gyda ehangiad y ddarpariaeth, mae yna ddau leoliad yn darparu gwasanaeth yn ddwy-ieithog.

Yna mae Gwybodaeth i Deuluoedd – mae’r tîm Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadw ystadegau fel cofnod o’r dewis ieithyddol gan ymholwyr. Yn y flwyddyn 2024-25 derbyniwyd 196 ymholiad a dewisodd 56% ohonynt yr opsiwn i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 39% o ymwelwyr i dudalen wefan Teulu Gwynedd wedi dewis yr opsiwn Gymraeg.

Mae’r tîm cefnogi teuluoedd yn cynnig gefnogaeth i deuluoedd yn y maes rhiantu, ymddygiad, a iaith a chwarae. Yn y flwyddyn 2024-25 derbyniodd 52% o’r teuluoedd y gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?

Ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, mae oddeutu 1,600 o staff, gweler isod ddata parthed eu sgiliau iaith. Noder fod y data'n gywir ar 31.03.25.

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Wedi cael asesiad iaith	1045 93.6%
Wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith	1010 90.5%
Cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	844 81%
Ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	201 19%

PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Wedi cael asesiad iaith	443 88.8%
Wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith	413 82.8%
Cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	415 94%
Ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd	28 6%

6.Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Rhwystrau

1. Heriau

Recriwtio

- Fel soniwyd eisoes, anhawster recriwtio gweithlu gofal sy'n cyrraedd gofynion iaith y swydd, yn enwedig mewn rhai ardaloedd. Problemau penodol i recriwtio ym maes therapi galwedigaethol, gan orfodi penodi therapyddion di-Gymraeg.

Mae sefydlu'r Academi Gofal yn cynorthwyo gyda'r gwaith o oresgyn y problemau hyn, gan y bydd y Gymraeg ac egwyddor y cynnig rhagweithiol yn ganolog i'r datblygiadau hyn. Mae Cynllun Gweithlu wedi ei ddatblygu ar draws y ddwy adran. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Ymgyrchoedd Recriwtio:** Deunydd hyrwyddo, fideos, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol parhaus yn galw am ofalwyr ac yn hyrwyddo'r maes.
- Gweithdai Cynllunio'r Gweithlu:** Cynnal gweithdai gyda gwasanaethau.
- Cydweithio gydag Adnoddau Dynol:** Gwefan newydd swyddi'r Cyngor ac ar drefniadau cyfweiliadau gadael.

2. Darpariaethau

Gofal

Mae cyfyngiadau wrth sicrhau lleoliad gofal dwys i blant neu oedolion ag Anableddau

Dysgu, ac yn aml mae rhaid mynd y thu allan i'r sir. Fel soniwyd, mae yna brosiectau wedi eu hadnabod fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 i fynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth yma yng Ngwynedd:

- **Datblygu darpariaeth breswyl i blant:** Cartrefi grŵp bychan cofrestredig ar gyfer hyd at ddau o blant, gan ganiatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan ym mywyd eu cymunedau.
- **Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned:** Isafswm o 6 tŷ newydd ar hyd a lled y sir i gynnig cartrefi gofal addas a diogel i unigolion ag Anableddau Dysgu. Blaenoriaethu unigolion sydd wedi eu lleoli yn all-sirol i ddychwelyd i Wynedd os ydynt yn dymuno.

3. Troseddwy'r Ifanc

Yn yr un modd rydym hefyd yn bryderus am anghenion ieithyddol troseddwy'r ifanc sydd yn derbyn dedfryd o garchar. Gan y golygai hyn fod troseddwy'r ifanc wedi'u lleoli yn Lloegr oherwydd diffyg darpariaeth addas yng Ngogledd Cymru, gan wanhau cysylltiad gyda'u teulu, iaith, a diwylliant. Mae'n fater pryder ac mae wedi'i uchafu i Lywodraeth Cymru ers blyneddau, ond mae'r sefyllfa yn parhau yr un fath, gan roi pobl ifanc o Wynedd dan anfantais.

Cysur mawr yw'r gwaith caled y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, gan na fu i unrhyw un dderbyn dedfryd o garchar ers Mehefin, 2023 a dim ond 1 esiamp o garcharu sydd wedi bod yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

4. Gweithio gyda partneriaid

Mae cynnal gwasanaethau integredig ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd yn creu heriau i ni yn ieithyddol gan fod nifer o'r cyfarfodydd yn cychwyn yn Saesneg. Rydym yn ymdrechu i ddylanwadu, er enghraifft drwy bwysu i sicrhau darpariaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd fwy ffurfiol. Mae'r un peth yn wir wrth i ni fynychu cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes. Nid yw nifer o'n partneriaid yn cynnig darpariaeth gyfieithu, yn enwedig mewn cyfarfodydd rhithiol ac mae'n rhaid i ni ofyn a phwyso yn aml am y gallu i gyfrannu'n Gymraeg.

Mae gweithio gyda'r Llywodraeth hefyd yn cynnig rhwystrau o ran diffyg cyfieithu dogfennau yn gywir i'r Gymraeg ac anghysondeb rhwng y Gymraeg a Saesneg.

5. Cydweithio gyda Cyfathrebu mewnol i hyrwyddo 'Mwy na geiriau (TikTok)

Gall gweithio gyda tîm cyfathrebu mewnol ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch data heriau am sawl rheswm. Mae risgiau technegol a'r agweddau cyfreithiol sy'n ymwneud â

diogelu gwybodaeth sensitif. Mae pwysau sylweddol ar y cyngor i beidio a thorri rheoliadau fel GDPR.

Wrth ystyried platfformau fel TikTok, mae'r risgiau'n cynyddu. Mae TikTok wedi bod dan archwiliad rhyngwladol oherwydd pryderon ynghylch sut mae'n trin data personol, gallai hynny arwain at dor-ddata neu achosion o rannu gwybodaeth sensitif heb ganiatâd. Er ein rhwystredigaeth o fethu rhannu cynnwys digidol megis fideos 'Mwy na geiriau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithlu, mae'n hanfodol fod cyfathrebiadau mewnol yn cael eu rheoli'n ofalus iawn er mwyn ddiogelwch y sefydliad.

Cwynion a chanmoliaethau

Mae darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol, mae enghreifftiau diweddar o gwynion nodweddiadol gan ddefnyddwyr wedi amlygu dwy enghraifft o ddiffyg staff i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Anfonwyd ymddiheuriadau a dysgwyd gwersi o hyn.

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	23 Mehefin 2025
TEITL:	Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd ar weithrediad y Safonau Iaith
AWDUR:	Nia Haf Lewis a Llywela Haf Owain Ymgynghorwyr Iaith
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'r aelodau er mwyn iddynt argymhelliad i'r Aelod Cabinet gymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad

1 CEFNDIR

1.1 Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, a osodwyd ar y Cyngor dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Cyngor *“lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi sy'n delio â'r modd y bu [ichi] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr [oeddech] o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.”*

1.2 Mae'r Safonau yn gosod rhai gofynion penodol ar gyfer adrodd blynyddol (158, 164 ac 170), gan nodi bod rhaid i ni gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- *nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau*
- *nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);*
- *nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);*
- *nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –*
 - i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol*
 - ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,*
 - iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu*
 - iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);*

1.3 Y tu hwnt i'r wybodaeth uchod, mae rhyddid i'r Cyngor gynnwys unrhyw wybodaeth y teimlwn sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd a Chomisiynydd y Gymraeg o waith y Cyngor yng nghyd-destun y safonau a hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg, ac unrhyw wybodaeth am gamau penodol a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.

1.4 Gan fod gan y Pwyllgor laith gyfrifoldeb am gadw trosolwg ar weithrediad y Safonau laith, mae'r adroddiad a atodir, ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2025, yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i aelodau'r pwyllgor, a gofynnir iddynt roi eu hargymhelliad iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan yr Aelod Cabinet.

1.5 Bydd angen i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2025.

2 CRYNODEB O'R ADRODDIAD

2.1 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth allweddol am drefniadau recriwtio a staffio, sydd yn sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn parhau i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg yn ddiofyn a lle bynnag y mae ei angen ar draws y Cyngor. Mae'r data allweddol yn cynnwys:

- 99.1% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar ryw fath o sgiliau yn y Gymraeg.
- 90% o staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd
- 570 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn gyda sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.

2.2 Rhoddir gwybodaeth hefyd am ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn i wella cydymffurfiaeth efo'r Safonau gan gynnwys hyfforddiant i staff. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai o'r heriau y bydd yr Uned laith a Chraffu a gwasanaethau ar draws y Cyngor, yn rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a'r cynnig rhagweithiol Cymraeg.

3 ARGYMHELLION

2.1 Gofynnir i'r aelodau:

- dderbyn cynnwys yr Adroddiad Blynnyddol,
- cynnig unrhyw sylwadau ar y materion sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad, a:
- argymhell i'r Aelod Cabinet gyhoeddi'r adroddiad erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2025.

Uned
laith

Adroddiad Blynyddol
SAFONAU'R
GYMRAEG
Cyngor Gwynedd

Ebrill 2024
-
Mawrth 2025



CYNNWYS

1. Rhagair (3)

2. Crynodeb (4)

3. Cefndir (5-6)

a. Dyletswyddau'r Safonau

b. Atebolrwydd

c. Adrodd yn unol â gofynion safon 170

4. Cydymffurfiaeth â'r safonau (7-26)

a. Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

b. Trefniadau cyffredinol

c. Cwynion

ch. Trosolwg cyffredinol sgiliau iaith

d. Hyfforddiant

5. Heriau wrth symud ymlaen (27-28)

RHAGAIR

Ers cychwyn yn fy rôl fel aelod cabinet â chyfrifoldeb am y Gymraeg, un o fy mlaenoriaethau yw ceisio sicrhau bod trigolion Gwynedd yn defnyddio eu Cymraeg a bod y Gymraeg yn ffynnu yn ein cymunedau. Rwy'n hynod falch o gydnabod bod gan drigolion Gwynedd gyfle i ddefnyddio'u Cymraeg ar draws pob gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r gwaith da sy'n cael ei gyflawni gan staff ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus o weithredu'r Strategaeth Iaith, gan gynnwys cwblhau prosiect allanoli Menter Iaith Gwynedd, hoffwn ddymuno'n dda i dîm y Fenter Iaith, fydd yn parhau gyda'r gwaith o hybu'r Gymraeg ar lawr gwlad a gwreiddio'r fenter yn ein cymunedau. Edrychaf ymlaen at gydweithio pellach er mwyn gweld y Gymraeg yn parhau i ffynnu yn ein cymunedau. Mae'r Strategaeth Iaith yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau ac ymysg pobl ifanc. Braf yw gweld bod gwaith ar droed gan adrannau amrywiol er mwyn mynd i'r afael â'r ymyraethau sydd eu hangen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd yn digwydd i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant sgiliau iaith yn allweddol ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y data yng nghorff yr adroddiad hwn. Gyda 99.1% o staff y Cyngor â gallu i siarad Cymraeg, a chyda'r Gymraeg yn iaith fewnol yn y gweithle, mae'r cyfle hwnnw i staff ddefnyddio ac ymarfer eu sgiliau Cymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn bwysig. Mae'n gadarnhaol gweld bod nifer o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant iaith, yn benodol cwrs gloywi iaith, er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i ddefnyddio eu Cymraeg a bod trigolion Gwynedd yn derbyn gwasanaethau safonol yn eu hiaith ddewisol.

Edrychaf ymlaen at y flwyddyn nesaf o weithredu a sicrhau fod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.

Cynghorydd Llio Elenid Owen
Aelod Cabinet Gwasanaethau
Corfforaethol a Chyfreithiol
a'r Gymraeg yn ystod 2024-25



Tud. 31

CRYNODEB

90% o staff y Cyngor
yn cyrraedd
dynodiad iaith eu
swydd

Sesiynau
ymwybyddiaeth
iaith i reolwyr a
chynghorwyr

Hyfforddiant fel
canllaw ar ddewis
enw addas i eiddo, i
staff

570 o swyddi wedi
eu hysbysebu lle
roedd sgiliau yn y
Gymraeg yn
hanfodol

99.1% o staff y
Cyngor yn meddu ar
ryw fath o sgiliau yn
y Gymraeg

49 yn mynychu
hyfforddiant iaith
allanol

A) DYLETSWYDDAU'R SAFONAU

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr hysbysiad yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio â nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi Iaith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi'r wefan gorfforaethol.

B) ATEBOLRWYDD

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd ac yn gyfrifoldeb ar holl adrannau a staff ar draws y Cyngor. Yn flynyddol, mae pob adran yn adrodd ar brosiectau sydd yn bwydo mewn i Strategaeth Gymraeg a chynllun y Cyngor. Cyflwynir y cyfan i Bwyllgor Iaith y Cyngor.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith ar Fehefin 23ain 2025, er mwyn ei gymeradwyo. Uned Iaith a Chraffu y Cyngor sydd yn gyfrifol am gynnwys yr adroddiad yn ogystal â sicrhau bod y safonau yn weithredol.

Dylai unrhyw gwestiwn am gynnwys yr adroddiad gael ei gyfeirio at yr Uned Iaith drwy iaith@gwynedd.llyw.cymru

CEFNDIR

C) ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170

Mae rhaid i'r Cyngor greu adroddiad blynyddol sy'n darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r union ofynion wedi eu rhestru yn safon 170:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn y Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) –

(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

i.bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

ii.bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

iii.bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

iv.nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiaeth â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

A) DATBLYGIADAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

SAFONAU'R GYMRAEG


Mae Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel yr arfer, drwy arweiniad polisi iaith y Cyngor. Nodir brwdfrydedd i ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg yn glir i'r holl staff a'r cyhoedd, o fewn yr adran gweithrediad mewnol y Cyngor, sy'n adrodd yr isod:

"Mae'r Cyngor yn gweithredu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae hyn yn golygu bod cyfarfodydd, a chyfathrebu mewnol yn digwydd yn Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser mewn unrhyw ddatganiadau llafar, bwletinâu gwybodaeth, posteri ac arwyddion. Mae holl wasanaethau mewnol ar gyfer staff, gan gynnwys polisiâu gwaith a'r gwasanaeth mewnwyddiaeth a hunanwasanaeth staff, yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Bydd disgwyl i bob aelod o staff ddefnyddio fersiynau Cymraeg o feddalwedd cyfrifiadurol. Bydd disgwyl i bob aelod o staff defnyddio llofnod e-bost sydd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu yn ddysgwyr. Bydd unrhyw bolisiâu perthnasol sydd yn ymwneud efo hawliau staff, prosesau disgyblu a chwynion, yn amlygu hawliau'r unigolion dan ofynion y Safonau. Bydd y Cyngor yn parchu hawl aelodau staff i arddel dewis iaith, ac yn darparu gwybodaeth bersonol yn yr iaith o'u dewis."

Codi ymwybyddiaeth

Codwyd ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg mewn sawl ffordd amrywiol eleni; wrth barhau gyda negeseuon polisi iaith misol mewn cylchlythyr i staff; sesiynau ymwybyddiaeth a diweddarau'r fewnwydd staff.

Gwnaethpwyd ymdrech i ddiweddarau'r fewnwydd staff gyda'r holl wybodaeth berthnasol a chyfredol am y maes iaith. Yma, mae'n bosib chwilio am y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd, yn ogystal â thempledi defnyddiol er mwyn cydymffurfio, fel datganiadau iaith a thempledi asesiadau effaith.



CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Strategaeth Iaith Gwynedd

Mae Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 – 2033 ar ei thrydedd blwyddyn, a'r 5 maes gweithredu yn dal i fod yn weithredol er budd cynyddu'r defnydd o Gymraeg. Bu datblygiad penodol ym maes gweithredu Iaith y Gymuned, gyda phrosiect creu dyfodol cynaliadwy i'r fenter iaith wedi cyflawni ei fwriad, wrth i Fenter Iaith Gwynedd adael Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2025 er mwyn sefydlu ei hun fel endid annibynnol.

Mae'r Prosiect Enwau Lleoedd hefyd wedi edrych ar gyfleoedd i hybu'r defnydd o enwau Cymraeg mewn cymunedau yng Ngwynedd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Swyddog Prosiect wedi cynnal hyfforddiant fel canllaw ar ddewis enw addas i eiddo/stryd ystâd, i swyddogion iaith a chraffu a rheolaeth adeiladu'r Cyngor. Yn dilyn hynny, sefydlwyd *Ap Enwau Gwynedd* er budd staff y Cyngor, i sicrhau bod ffurfiau cywir yn cael eu defnyddio.

Enw: Teipiwch enw i chwilio		
Enw Cymraeg	Fersiwn Saenseg	Cyfeirnod Grid
Aberierenni	Aberierenni	SH7709
Abermaw	Barmouth	SH6115
Aberpwll	Aber-pwll	SH5368
Abersoch	Abersoch	SH3128
Abertrinant	Abertrinant	SH6405
Afon Wen	Afon-wen	SH4437

Fforwm Iaith Gwynedd

Gyda Fforwm Iaith Gwynedd wedi'i sefydlu ers 2 flynedd bellach, yn ystod y flwyddyn adrodd hon, sefydlwyd is-grŵp pobl ifanc sydd â chynrychiolaeth llai o'r fforwm ehangach, sydd â nod penodol o gynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg pobl ifanc. Cynhaliwyd 3 chyfarfod yn y cyfnod hwn gyda phenderfyniad i gynnal ymgynghoriad er mwyn clywed yn benodol gan y bobl ifanc am eu barn a'u defnydd nhw o'r Gymraeg. Y targed oedran dan sylw oedd pobl ifanc rhwng 16-18, oedd yn byw neu yn astudio yng Ngwynedd, gan ganolbwyntio ar glywed eu safbwyntiau nhw o ran astudio'n Gymraeg, gwerth y Gymraeg mewn swyddi a'u hyder ac amllder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol. Trwy ddefnyddio holiadur a grwpiau ffocws rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025, daeth i'r amlwg mae'r prif negeseuon a gododd oedd y diffyg ymwybyddiaeth o'r galw am siaradwyr Cymraeg mewn swyddi; cyrsiau ac adnoddau addysgol ddim ar gael yn Gymraeg a'r diffyg defnydd o Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr is-grŵp yn cyd-weithio ar sefydlu a gweithredu ymyraethau er mwyn ymgymryd â'r heriau dan sylw.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Ymwybyddiaeth iaith

Yn ogystal ag e-fodiwlau Ymwybyddiaeth Iaith mandadol, mae gwaith wedi mynd rhagddo er mwyn ailddechrau cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith wyneb yn wyneb. Fel rhan o'r sesiynau, rhoddir cyflwyniad i hyfforddiant iaith o fewn y Cyngor, yr hyn sy'n ddisgwyliedig o ran safonau'r Gymraeg a'r polisi iaith, yn ogystal ag elfennau o ymwybyddiaeth a chadernid iaith. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae sesiwn wedi'i chynnal â chynghorwyr i drafod eu rôl nhw i ddylanwadu o fewn eu cymunedau, ac roedd 16 cynghorydd yn bresennol. Yn dilyn cais, cafodd staff ategol addysg gyflwyniad ar ofynion y polisi a'u cyfrifoldeb nhw i gydymffurfio a chyflwyno'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd ysgol pobl ifanc Gwynedd.

Yn ychwanegol eleni, mae'r ymgynghorwyr iaith wedi cychwyn cynnal sesiynau i grwpiau rheolwyr adran, yn cynnig arweiniad ar gydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg ac adrodd ar eu prosiectau sydd yn cyfrannu at weithredu'r Strategaeth Iaith. Bydd y sesiynau yma yn cael eu lledaenu ar draws adrannau'r Cyngor dros y flwyddyn nesaf. O'r cyfarfodydd cychwynnol, cafwyd trafodaethau ynghylch y gefnogaeth bellach y byddwn yn ei darparu i'r rheolwyr a'r staff, yn benodol ar hunanasesu eu cydymffurfiaeth a chreu asesiadau effaith. Cafwyd adborth da fod y sesiynau wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac wedi atgoffa rheolwyr o'u cyfrifoldebau yn y maes. Mae'r Ymgynghorwyr Iaith wedi cychwyn ar greu adnodd arfer dda ar sut i greu asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg ac yn bwriadu cynnal hyfforddiant ar hyn i staff.

Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Mae cynrychiolwyr o'r Cyngor yn parhau i fod yn aelodau o Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Cafwyd trafodaethau o fewn yr is-grŵp er mwyn symud ymlaen gyda'r prosiect o amlygu mythau o ran yr iaith Gymraeg ac ymateb i'r rheiny mewn ffordd bositif er mwyn ymgymryd â'r heriau recriwtio. Penderfynwyd comisiynu cwmni i greu adnoddau i helpu i recriwtio gweithwyr dwyieithog o fewn sefydliadau cyhoeddus, a byddwn yn rhan o'r gwaith hwnnw.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

B) TREFNIADAU CYFFREDINOL I GYDYMFFURFIO Â'R SAFONAU

Grŵp o safonau	Camau a gymerwyd yn y flwyddyn dan sylw	Camau i'w cymryd yn y flwyddyn i ddod
Llunio polisi (88 – 90)	Mae ymdrech wedi'i wneud er mwyn astudio asesiadau effaith sydd wedi cael eu cyhoeddi a'u rhannu mewn cyfarfodydd cabinet, wrth wneud penderfyniadau. Mae swyddog iaith wedi bod yn awgrymu newidiadau er mwyn sicrhau bod yr asesiadau yn cydymffurfio â'r gofynion. Gan eu bod yn ddogfennau byw, ers i'r system newid i fod yn ddogfennau ar lein, mae modd addasu ac ychwanegu at y dogfennau i'w cryfhau.	Cynnal sesiynau hyfforddi fyddai'n dangos arfer dda asesiadau effaith dros y Gymraeg a phwysleisio yr angen i asesu effaith ar y Gymraeg wrth llunio polisi. Byddwn yn creu adnodd syml er mwyn i staff fedru mynd nôl ato yn sydyn pan fydd angen.
Llunio polisi (94)	Cychwynnwyd ar y gwaith o greu strategaeth caffael newydd.	Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal yn y misoedd nesaf a ellir gwneud addasiadau er mwyn hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.
Gweithredu (98)	Mae Cyngor Gwynedd yn dal i weithredu eu polisi iaith, ac mae ymdrech pellach wedi'u wneud i rannu elfen o'r polisi yn fisol ar gyfryngau Uned Iaith er mwyn cael y cyhoedd i ddeall y polisi yn well.	Rhannu mwy o negeseuon atgoffa ymysg staff, drwy sesiynau hyfforddiant, cylchlythyr misol, y fewnwyd ac ymysg rheolwyr.
Gweithredu (132)	Cynnal sesiynau hyfforddi byw ar ymwybyddiaeth iaith, i staff adrannol pan fo'r galw yn codi. Ymdrech i gynnig cefnogaeth pellach i reolwyr gwasanaethau i weithredu yn unol â'r safonau a sut i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg drwy eu gwaith dyddiol. Mae cynghorwyr hefyd wedi cael sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth iaith a hyrwyddo eu rôl o fewn cymuned.	Mynychu pob cyfarfod tîm rheoli adrannol er mwyn cynnal sesiwn i gynnwys ymwybyddiaeth iaith, ymwybyddiaeth o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac adrodd ar eu prosiectau i hybu'r Gymraeg.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

C) CWYNION

CWYNION AC YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

1. CS1296 - Peiriant talu am barcio

Derbyniwyd cwyn bod sgrin peiriant talu am barcio ym Mangor yn arddangos iaith wallus ac annealladwy yn y Gymraeg. Canfuwyd bod problem wedi codi ar ôl diweddaru meddalwedd y peiriant. Cysylltwyd gyda'r cwmni a oedd yn gyfrifol am y peiriant a llwyddwyd i gywiro'r iaith a oedd yn ymddangos ar y sgrin.

2. Diffyg hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn ymwneud ag aelodau staff mewn canolfannau pleidleisio

Cafwyd ymholiad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch achos o ddiffyg hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer aelodau staff mewn canolfannau pleidleisio. Roeddent yn cydnabod nad oedd hyn yn disgyn o dan Safonau'r Gymraeg gan mai cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau oedd darparu hyfforddiant, yn hytrach na Chyngor Gwynedd. Eglurwyd bod holl staff achlysurol y canolfannau pleidleisio yn derbyn hyfforddiant gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, sy'n ofyn gan y Comisiwn Etholiadol. Ategwyd bod Cyngor Gwynedd wedi mynegi eu rhwystredigaeth wrth y gymdeithas nad oedd deunyddiau Cymraeg ar gael. O ganlyniad, trefnodd Gwasanaeth Etholiadol Cyngor Gwynedd gyfres o gyfarfodydd hyfforddiant dilynol drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi staff gorsafoedd. Os na fydd darpariaeth Gymraeg ar gael i'r dyfodol, bydd y Cyngor yn ystyried creu hyfforddiant ac yn ceisio dwyn perswâd ar Awdurdodau Lleol eraill i gydweithio ar hynny yn hytrach na defnyddio'r ddarpariaeth uniaith Saesneg.

3. Llinell ffôn Gymraeg ar gyfer talu treth y Cyngor gyda cherdyn credyd/debyd

Cafwyd ymholiad gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch a oedd y cyhoedd yn cael eu trosglwyddo at linell ffôn Gymraeg er mwyn talu bil treth gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd. Cadarnhawyd bod hyn yn digwydd a bod y system dalu drwy gerdyn debyd/credyd yn system ddwyieithog.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

4. Polisi Gosod Tai

Cysylltodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar ôl derbyn ymholiad gan aelodau o'r cyhoedd a oedd o'r farn nad oedd polisi gosod tai Gwynedd yn cynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth wrth flaenoriaethu tai cymdeithasol yng Ngwynedd. Gofynnwyd am gopi o'r polisi gosod tai a'r asesiad effaith a wnaed yn 2019 pan fabwysiadwyd y polisi. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr asesiad effaith a gwblhawyd yn ddigonol. O ganlyniad gofynnwyd i'r Cyngor sicrhau y bydd asesiad effaith cynhwysfawr yn cael ei gynnal pan fydd y polisi yn cael ei adolygu neu ei ddiwygio nesaf.

5. CS1260 - Neges uniaith Saesneg yn ymddangos ar wefan y Cyngor er mwyn gwirio unigolion.

Derbyniwyd cwyn yn ymwneud â neges uniaith Saesneg oedd yn ymddangos ar wefan Cyngor Gwynedd er mwyn gwirio a oedd unigolyn yn berson go iawn. Darganfuwyd bod yr adran yn ymwybodol o'r mater ac wedi bod yn chwilio am ddatrysiad cyn derbyn y gŵyn. Roedd y mater yn ymwneud a system gyfrifiadurol swyddfa gefn a ddarperir gan gwmni allanol. Nid oedd unrhyw broblem gyda'r system yn wreiddiol ond sylweddolwyd bod y cwmni wedi cyflwyno cam diogelwch ychwanegol ar y system a oedd yn ymddangos i'r defnyddiwr yn uniaith Saesneg. Pan ddaeth y broblem yn amlwg cysylltwyd gyda'r cwmni i ddatgan anfodlonrwydd a'r angen i gael datrysiad buan i'r sefyllfa.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

CWYNION AC YMHOLIADAU -

AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Natur y gwyn	Esboniad a chatau a gymerwyd
Gwasanaethau Corfforaethol	Gofynion sgiliau iaith Cymraeg gweithlu Cyngor Gwynedd	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod yn rhaid i weithwyr y Cyngor allu siarad ac ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg rhugl a bod hynny yn ei rwystro rhag ymgeisio am swyddi. Nododd hefyd bod ganddo anabledd clyw o ran clywed rhai llythrennau Cymraeg ac o ganlyniad bod polisi'r Cyngor yn gwahaniaethau yn ei erbyn. Eglurwyd wrtho bod disgwyl i bob aelod o staff feddu ar sgiliau Cymraeg ond nad oes disgwyl iddynt fod yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer pob swydd. Ategwyd bod gwahanol lefelau o Gymraeg ac nad yw'r ffaith bod y Cyngor yn datgan bod sgiliau Cymraeg yn "hanfodol" yn golygu'r un peth â gorfod bod yn rhugl. Ymhelaethwyd bod cefnogaeth ar gael i staff wella eu sgiliau Cymraeg. Nid oedd yr achwynydd yn fodlon gyda ymateb y Cyngor felly anfonodd gŵyn at yr Ombwdsman. Penderfynodd yr Ombwdsman nad oedd am ymchwilio i'r mater.
Cyllid	P45 - Llythyr Cymraeg	Derbyniwyd cwyn am dderbyn P45 Cymraeg gan Gyngor Gwynedd ar ran y Gwasanaeth Etholiadau. Eglurwyd wrth yr achwynydd bod y Cyngor wedi cynhyrchu a dosbarthu ffurflenni P45 i weithwyr sydd yn hanesyddol wedi bod yn gweithio i'r gwasanaeth etholiadau. Yn unol â pholisi iaith y Cyngor, cynhyrchwyd y ffurflenni drwy gyfrwng y Gymraeg oni bai bod yr unigolyn wedi nodi eu bod yn dymuno derbyn unrhyw ohebiaeth yn Saesneg. Ymhelaethwyd nad oedd cofnod bod yr unigolyn yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Saesneg ac felly anfonwyd fersiwn Cymraeg.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Adran	Natur y gwyn	Esboniad a chamau a gymerwyd
Tai	Dyfodol i'r Iaith - y sylw a roddir i'r Gymraeg yn y polisi gosod tai	Derbyniwyd llythyrau gan Dyfodol i'r Iaith ynghylch materion am Bolisi Gosod Tai Gwynedd a materion cysylltiedig yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg. Eglurwyd bod polisi Gosod Tai Gwynedd yn cael ei gydnabod fel un o'r polisiau gosod cryfaf yng Nghymru, gyda 97% o holl osodiadau'r sir, ar gyfartaledd, yn mynd i unigolion â chysylltiad i Wynedd. Rhoddir ffocws penodol ar flaenoriaethu pobl leol o fewn y polisi sy'n cyfrannu at hybu cyfleoedd i'r rhai sy'n siarad y Gymraeg. Ategwyd bod y Cyngor yn awyddus i gymryd pob cyfle i weld os oes modd cryfhau polisiau a chryfhau cynladwyedd cymunedau. Ymhelaethwyd bod bwriad i drafod y mater gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac i dderbyn barn gyfreithiol annibynnol ar hyn.
Oedolion	Gohebiaeth uniaith Saesneg gan swyddog o'r Cyngor	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod grwpiau cymunedol yn derbyn e-byst Saesneg gan swyddog, er eu bod wedi gwneud cais i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Ymddiheurwyd am hyn ac atgoffwyd y swyddog o'r angen i sicrhau bod pob gohebiaeth yn Gymraeg neu yn ddwyieithog a rhoddwyd trefniadau mewn lle i sicrhau nad oedd hyn yn digwydd eto.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

CWYNION AC YMHOLIADAU -

YN YMWNEUD AG ENWAU LLEOEDD

Natur y gwyn	Ymateb
<u>Arwyddion amrywiol</u> Arwyddion yn 'anghywir' neu'n ddryslyd eu natur ('Cadwch yn glir' yn hytrach na 'Cadwer yn glir' ac eraill). Hefyd y faith bod rhai arwyddion brown twristiaeth yn anghyson.	Eglurwyd nad oedd dim y gall y cyngor ei wneud am gywirdeb iaith arwyddion sy'n cael eu codi gan fusnesau. Rhoddwyd yr addewid y byddwn yn codi mater yr arwyddion brown yn y Fforwm Enwau Lleoedd nesaf.
<u>Spinneys, Gan Ogwen, Bangor</u> Cwyn nad yw Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio hen enw'r lle (Llyn Celanedd) ac yn annog Cyngor Gwynedd i ddefnyddio'r enw hwnnw a phwyso ar CNC i wneud yr un peth.	Anfonwyd gair at YNGC yn nodi'r ffaith ein bod fel Cyngor yn annog y defnydd o enwau Cymraeg, gwreiddiol. Anfonwyd at yr achwynydd yn dweud ein bod yn cefnogi eu safbwynt, ond nad oes gennym fel Cyngor yr hawl i fynnu bod sefydliadau eraill yn defnyddio enw penodol.
<u>Pont garreg-hylldrem, Croesor</u> Cwyn bod y Cyngor yn defnyddio'r enw hwn yn hytrach na'r hen enw gwreiddiol 'Pont Gweunydd'. Hefyd bob y cyhoedd yn drysu rhwng 'Llanfrothen' a 'Garreg'.	Pont Gweunydd wedi ei osod ar ein Map Enwau Lleoedd. Eglurwyd mewn e-bost mai enw'r gymuned ehangach yw 'Llanfrothen' sy'n cynnwys Llanfrothen a Garreg.
<u>Chandler's Place/Lôn Gannwyll Porthmadog</u> Cwyn gan ddynes sy'n berchen ar eiddo ym Mhorthmadog. Roedd yn cwyno bod yr enw Lôn Gannwyll a gaiff ei ddefnyddio gan y Cyngor yn anghywir, ac mai Chandler's Place yn unig y dylai fod.	Eglurodd y Swyddog Prosiect Enwau Lleoedd wrthi bod Lôn Gannwyll yn llawn mor ddilys a Chandler's Place, gan egluro hanes a tharddiad y ddau enw.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Natur y gwyn	Ymateb
<u>Cerrig yr Afon, Y Felinheli</u> Galwad gan aelod o'r cyhoedd nad oes staff Cymraeg eu hiaith yng nghartref gofal Cerrig-yr-Afon, Y Felinheli.	Eglurwyd nad oes dim y gall y Cyngor ei wneud pan mae'n dod i fusnesau preifat, boed nhw'n fawr neu'n fach, a bod hynny'n fater o rwystredigaeth i ni fel Uned. Roedd yr achwynydd yn derbyn hynny.
<u>Llys y Delyn/Tŷ Mary, Y Bermo</u> Anfodlonrwydd bod eiddo Llys y Delyn wedi ei newid i Tŷ Mary ac eisiau gwybod pam bod y Cyngor wedi caniatáu hyn.	Eglurwyd nad oes gan y Cyngor hawl i wrthwynebu newid enw eiddo ond ein bod yn annog yn gryf y dylid cael enw Cymraeg sydd a chyswllt hanesyddol, diwylliannol neu ieithyddol â'r ardal. Chlywyd dim yn ôl.
<u>Yr Wyddfa</u> Anfodlonrwydd gyda'r penderfyniad i arddel yr enw Cymraeg yn unig ar gopa uchaf Cymru. Cyhuddiad ein bod yn Gyngor wrth-Seisnig gan nodi bod pawb yn deall Saesneg felly nad oedd angen gwaredu yr enw Saesneg.	Gan nad oedd unrhyw gwestiwn angen ei ateb gan y Cyngor, a bod y 'gŵyn' yn fwy o ddatganiad blin, penderfynwyd awgrymu wrth yr achwynydd ei fod wedi anfon ei gŵyn i'r lle anghywir ac y dylai anfon ei sylwadau at y Parc Cenedlaethol.
<u>Rhes Wiliam/ William Terrace</u> Cwyn gan berson yn byw yn y stryd yn mynnu nad Rhes Wiliam yw'r enw ac mai Williams Terrace sydd yn gywir. Mynnu y dylai'r Cyngor ddefnyddio'r fersiwn Saesneg yn unig.	Eglurwyd bod dau enw ffurfiol/swyddogol, Rhes Wiliams a William Terrace. Nid yw William's Terrace yn bodoli, dim ond ar fapiau Google.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

D) TROSOLWG CYFFREDINOL SGILIAU IAITH

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â sgiliau iaith staff a dynodiadau iaith swyddi. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil hanfodol ar gyfer **pob swydd** o fewn y Cyngor.
- Rhaid i ofynion ieithyddol **pob swydd** gael eu hasesu yn erbyn y fframwaith iaith.
- Bydd cyfweiliadau ar gyfer y swyddi'n cael eu cynnal yn Gymraeg.
- Rhaid cynnal asesiad o sgiliau iaith pob aelod o staff, naill ai wrth iddynt gael eu penodi, neu fel rhan o drefniadau anwytho.

Safon 154: Adrodd ar nifer swyddi yr hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl pob "categori"
Mae **pob swydd** a gaiff ei hysbysebu gan y Cyngor yn nodi gofynion iaith fel sgil hanfodol, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.

Nifer y swyddi y hysbysebwyd	570
Nifer y swyddi â Chymraeg yn hanfodol	570

CYDYMFFURIAETH Â'R SAFONAU

Safon 170: Adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein system Sgiliau Iaith Staff newydd i gasglu ein data, sy'n rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

Cwestiwn	Ateb
1. A yw'r aelod staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac Ydi
2. Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwrandd a Siarad, Darllen a Deall, ei Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell:** yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff:** mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwrandd a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau Iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae gwaith o gasglu'r asesiadau yn waith parhaus, ac felly rydym yn adrodd ar nifer y staff sydd wedi'u hasesu yn unig. Bydd y nifer hwn felly yn cynyddu ac yn newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith. Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn bellach ddechrau adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, gellir ymateb yn rhagweithiol i hynny.

Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei chasglu yn awtomatig ar y system Sgiliau Iaith Staff, ac yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg.

NODER:

- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac maent yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.
- Mae **pob swydd** yn cynnwys gofynion iaith **hanfodol**, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir fyth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau'r gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd â mwy nag un swydd o fewn y Cyngor, i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol (er yn gyflogedig gan y Cyngor) - **GwE, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** - gan eu bod yn gydbwyllgorau ac felly nid ydynt atebol i ofynion y Safonau. Nid ydym yn cynnwys staff ysgolion yn ein data chwaith.

4

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

ADRODDIAD SGILIAU:
Roedd y wybodaeth isod yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac fe gafodd ei hechdynnu o'n system Sgiliau Iaith Staff.

Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor yn y prif adrannau)	4009	
Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd (Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau)	3687	92%
Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd yn unig (Cwestiwn 2)*	3377	84% *

*Oherwydd trosiant staff, ni fydd y ganran hon fyth yn cyrraedd 100%.

Staff a'r Dynodiadau Iaith:

	2023/24		2024/25	
Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	2679	92%	3340	90%
Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	253	8%	353	10%

Trosolwg o lefelau iaith y staff:


	2023/24		2024/25	
Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)	3957	99%	3351	99%
Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	43	1%	29	1%

CYDYMFFURIAETH Â'R SAFONAU

Lefelau Iaith y staff fesul adran:

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Uwch neu Hyfedredd.

**Er hwylustod, talfyrrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn yn y tabl isod.*




	Addysg (heb gynnwys ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Gwasanaethau Corfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Tai ac Eiddo	Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol
Hyfedredd	224	114	142	115	108	422	273	114	94	78
Uwch	139	82	68	37	66	244	97	115	59	25
Canolradd	51	103	5	7	12	156	20	21	11	3
Sylfaen	38	27	2	0	6	56	12	8	5	1
Mynediad	44	15	0	0	0	112	10	6	3	1
Dim sgiliau	4	4	0	0	0	20	1	0	0	0

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Lefelau Iaith swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel (heb gynnwys Ysgolion Gwynedd):

Mae gofynion lefelau un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel **Siarad a Gwrando fel 'prif lefel'** ar gyfer adrodd lefelau swydd, gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.

LEFELAU IAITH SWYDDI PRIF ADRANNAU CYNGOR
GWYNEDD



Rydym yn gallu edrych ar y dadansoddiad hwn ar lefel adrannol hefyd, ac mae hyn yn ein galluogi i weld lle mae'r swyddi lle mae lefelau is wedi eu nodi. Mae nifer o swyddi yr adran Prifffyrdd, er enghraifft, yn rhai lle nad oes angen sgiliau uwch yn y Gymraeg oherwydd bod llai o gyswllt uniongyrchol a wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd. Byddwn yn gallu cymryd sampl o'r swyddi hyn ar unrhyw adeg a chynnal gwiriad o ddynodiad y swydd.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

E) HYFFORDDIANT

Yn yr adran hon, ceir trosolwg o ddata yn ymwneud â hyfforddiant yng Nghyngor Gwynedd. Yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Bydd pob hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.
- Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg.
- Ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.

Dim ond pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn, y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Nodir y wybodaeth isod ar gyfer pob un o brif adrannau'r Cyngor

POB ADRAN (heblaw BYW'N IACH, Cefnffyrdd, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr)

Mae hyfforddiant sy'n berthnasol i bob aelod o staff, ar draws pob adran, yn cael ei adnabod fel hyfforddiant ar lefel **'Sefydliad'** (neu Hyfforddiant Corfforaethol). Yr hyfforddiant yma sydd yn cael ei weinyddu a'i ddarparu gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Mae hyfforddiant sy'n berthnasol i swydd, gwasanaeth neu adran benodol yn cael ei adnabod fel hyfforddiant ar lefel **'Swydd'** ac yn cael ei weinyddu a'i ariannu gan weinyddwyr o fewn y gwasanaethau a'r adrannau hynny.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Nifer digwyddiadau unigol rhwng **01.04.24 a 31.03.25 = 804**

Nifer y teitlau (lefel Swydd/Sefydliad) rhwng
01.04.24 a 31.03.25 = 187 (ddim yn cynnwys teitlau cynghorwyr)

Nifer digwyddiadau									
	22/23			23/24			24/25		
	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad	Cyfanswm	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad	Cyfanswm	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad	Cyfanswm
Cymraeg	175	272	447	154	251	405	165	282	447
Saesneg	253	50	303	254	47	301	233	21	254
Dwyieithog	169	19	188	114	7	121	116	7	123

Nifer o fynychwyr									
	22/23			23/24			24/25		
	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad	Cyfanswm	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad	Cyfanswm	Lefel Swydd	Lefel Sefydliad	Cyfanswm
Cymraeg	705	926	1631	614	1001	1614	940	1113	2053
Saesneg	730	257	987	808	281	1089	826	110	936
Dwyieithog	568	19	587	319	19	338	497	70	567

Nifer o sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn – 3
(Aelodau; Rheolwyr Gwasanaethau Corfforaethol; Staff Ategol Addysg)

Nifer y staff sydd wedi cwblhau yr e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith rhwng
01.04.24 - 31.03.25 - 392

Cyfanswm nifer y staff sydd wedi cwblhau'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith –
Prif adrannau'r Cyngor: 23% - 1,407 wedi ei gwblhau allan o 6,218 o aelodau o staff

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

Safon 128 - Adrodd ar gyfrwng iaith hyfforddiant

58 unigolyn wedi mynychu'r Gweithdy Croeso yn y cyfnod 01.04.24 – 31.03.25

6 digwyddiad wedi ei gynnal

4 trwy cyfrwng y Gymraeg a wyneb yn wyneb

2 trwy cyfrwng y Gymraeg efo Cyfieithydd a wyneb yn wyneb

Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH:

Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.24 a 31.03.25 = **101**

Nifer y teitlau rhwng 01.04.24 - 31.03.25 = **25**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	49	56
Saesneg	21	46
Dwyieithog	31	168

Safon 130: Adrodd ar y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

Dyma drosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i staff i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod 2024-2025:

- Cyrsiau cymunedol dros flwyddyn academiaidd (gwersi wythnosol ar-lein neu wyneb yn wyneb)
- Cyrsiau haf Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy)
- Cyrsiau hunan-astudio ar-lein e.e. Hunan-astudio lefel Mynediad a Sylfaen a chyrsiau Blasu Cymraeg Gwaith
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith (ar-lein neu wyneb yn wyneb)
- Cyrsiau a gomisiynwyd yn arbennig ar lefelau amrywiol
- Y Dystysgrif Sgiliau Iaith
- Cynllun mewnol Cyfeillion Cymraeg

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU

RHAI O UCHAFBWYNTIAU'R FLWYDDYN

'Cyrsiau 'Defnyddio' Cymraeg Gwaith

Mae'r cyrsiau 'Defnyddio' wedi bod yn boblogaidd ymysg staff y Cyngor o'r dechrau. Maen nhw'n gyfle arbennig i staff gael treulio cyfnod estynedig yn canolbwyntio ar ddatblygu eu sgiliau iaith a hynny yn benodol ar gyfer y gweithle. Braf oedd gweld 5 aelod arall o staff yn mynychu eleni. Mynychodd un y cwrs Canolradd, un y cwrs Uwch, a thri y cwrs Gloywi Siarad. Mae eraill hefyd wedi dangos diddordeb ac yn disgwyl am ddyddiadau addas er mwyn cofrestru.

Cyrsiau comisiwn

Cwrs Gloywi Iaith i Gynghorwyr (Esgair)

Cynigiwyd y cyfle i Gynghorwyr fanteisio ar y cyfle i loywi eu sgiliau iaith mewn cyfres o sesiynau gyda'r tiwtor iaith, Siân Esmor. Cynhaliwyd chwe sesiwn rhwng mis Medi a mis Hydref 2024. Roedd 5 yn mynychu'r sesiynau a chafwyd adborth cadarnhaol ganddynt:

"Dyma gwrs gwych i wella'ch sgiliau Cymraeg a rhoi hyder i gynghorwyr i'w defnyddio - cwbl ymarferol, hwyliog, gwerth chweill!"

Cwrs Datblygu Sgiliau Iaith (Cymraeg Gwaith a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)

Fis Medi, anfonwyd neges at aelodau o staff yn gofyn a oedd ganddynt ddiddordeb mewn cwrs Gloywi Iaith. Ar y pryd, nododd 24 fod ganddynt ddiddordeb, ac felly, ar y cyd â Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, trefnwyd cyfres o ddeg sesiwn 'Datblygu Sgiliau Iaith'. Cofrestrodd 9 aelod o staff ar gyfer y sesiynau a bu 8 yn mynychu. Cynhaliwyd y sesiynau o fis Ionawr i fis Mawrth 2025. Bu'r sesiynau'n fuddiol iawn i'r aelodau staff, a bu'r cydweithio rhwng y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg a'r tiwtor yn werthfawr iawn er mwyn adolygu cynnydd y mynychwyr.

Cynllun Cyfeillion Cymraeg

Lansiwyd ein cynllun Cyfeillion Cymraeg yn 2019 er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg newydd yn y gweithle a pharhau i ddatblygu eu gallu yn yr iaith y tu allan i'r dosbarth. Gwneir hynny yng nghwmni siaradwyr rhugl ar draws y sefydliad. Mae'r cyfle i gael sgysiau anffurfiol gydag aelodau eraill o staff y Cyngor yn profi i fod yn werthfawr iawn i ddysgwyr, gyda nifer yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymarfer a gofyn cwestiynau. Y gobaith yw bod y sesiynau hyn yn cefnogi eu gwersi ffurfiol ac yn eu helpu i fagu hyder.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2025 roedd 5 unigolyn yn derbyn cefnogaeth gan 5 'Cyfaill'. Roedd 4 arall wedi holi am ymuno â'r Cynllun ac yn disgwyl am 'Cyfaill'.


Byddwn yn parhau gyda'r cynllun presennol gan chwilio am ragor o Gyfeillion i gefnogi dysgwyr yn ystod y flwyddyn nesaf.

CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU


Mae'r tablau isod yn cynnig rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant iaith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn 2024-2025.

NIFER Y MYNYCHWYR YN ÔL MATH/TEITL CYRSIAU

Cwrs	Nifer Unigolion
Mewnol	
Cynllun Cyfeillion Cymraeg	5
Allanol	
Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg	21
Cyrsiau dwys	5
Cyrsiau hunan astudio ar-lein (Cymraeg Gwaith)	5
Comisiynau amrywiol	13
	49



Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draws adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:



HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN

Asesiadau Effaith

Yn dilyn sesiwn ‘Ymdrech gydwbybodol’ Comisiynydd y Gymraeg fis Rhagfyr, mae prosesau ar waith er mwyn asesu trefniadau Cyngor Gwynedd wrth greu asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae’r Ymgynghorwyr Cydraddoldeb wedi creu fersiwn ar-lein er mwyn creu y templed asesiad effaith ac mi fydd angen hyrwyddo hwn ymhellach dros y flwyddyn nesaf. Byddwn yn mynd ati i greu deunydd ar sut i fewnbynnu’r data ac adrodd ar arfer dda. Bwriedir cynnal hyfforddiant ar y camau i greu asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg.

Sesiynau ymwybyddiaeth i reolwyr

Mae hyfforddiant gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr am ‘Y Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd’ yn cynnwys atgoffa am y polisi iaith a safonau’r Gymraeg; asesiadau effaith a holiadur cydymffurfiaeth; hyfforddiant a’r dynodiadau iaith, yn ogystal â chyfieithu a phrawf ddarllen. Gan bod Ymgynghorwyr Iaith a Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg y Cyngor bellach wedi creu a sefydlu’r hyfforddiant hwn i reolwyr, bydd ymdrech yn cael ei gwneud i’w gyflwyno i reolwyr ar draws adrannau’r Cyngor, er mwyn sicrhau bod yr holl negeseuon cydymffurfiaeth yn eu cyrraedd ac yna yn trwytho lawr at holl staff y Cyngor.

Hyfforddiant

Wrth adolygu data cyfrwng iaith hyfforddiant, bydd trafodaethau yn digwydd rhwng yr Uned Iaith ac adrannau sydd wedi cynnal hyfforddiant Saesneg, er mwyn adnabod yr heriau a’u datrys. Mae nifer y digwyddiadau hyfforddiant cyfrwng Saesneg wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn a byddwn yn mynd i’r afael â’r heriau sydd ynghlwm â’r data hwnnw, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn Gymraeg o hyn allan. Mae’r data yn amlygu mai hyfforddiant ar lefel swydd yw’r mwyafrif o’r rhain, sy’n tynnu sylw at y ffaith bod canfod hyfforddwyr Cymraeg ar gyfer rhai meysydd arbenigol yn heriol ar brydiau. Bydd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn addasu sut maent yn adrodd ar gyfrwng iaith hyfforddiant corfforaethol o hyn allan, i osgoi cynnal hyfforddiant Saesneg. Bydd ambell sesiwn mewn cyfres yn cael eu nodi fel ‘Cymraeg efo Cyfieithydd’ er mwyn i unrhyw ddysgwr fedru ymuno.

HERIAU WRTH SYMUD YMLAEN

Datblygu sgiliau Cymraeg

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd hyfforddiant ‘Cyfathrebu Clir’ sy’n canolbwyntio ar sut i ysgrifennu mewn Cymraeg clir, syml a dealladwy. Cynhaliwyd sesiwn beilot ddechrau mis Mai 2025, ac yn dilyn hynny bydd yr hyfforddiant ar gael i unrhyw aelod o staff fynychu. Mae hyn yn rhan o waith ehangach sydd ar y gweill i edrych ar ysgrifennu mewn Cymraeg clir ar draws y Cyngor.

Mae bwriad hefyd i ddatblygu hyfforddiant byr ar dechnoleg Gymraeg er mwyn tynnu sylw staff at yr holl adnoddau sydd ar gael ar-lein i’w cefnogi i ddefnyddio’r Gymraeg.

Cafwyd trafodaeth â Cymraeg Gwaith i edrych ar y posibilrwydd o gael tiwtor iaith mewnol i’r Cyngor. Yn dilyn y sgwrs, penderfynwyd cydweithio’n agosach am y tro er mwyn cydlynu a threfnu hyfforddiant iaith i staff ac edrych ar anghenion y Cyngor yn ôl sector. Bydd modd ailymweld â’r drafodaeth am diwtor iaith mewnol, pe bai angen, yn dilyn hynny.

Gall fod yn her canfod hyfforddiant iaith sy’n addas ar gyfer staff sy’n dilyn patrwm gwaith gwahanol i’r oriau swyddfa ‘9 tan 5’ arferol. Trwy gydweithio’n agosach gyda Cymraeg Gwaith, gobeithiwn fynd i’r afael â’r her hon fel bod pob aelod o staff yn gallu manteisio’n llawn ar y cyfle i ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Ar y cyd â Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin a Cymraeg Gwaith, bydd gwaith yn dechrau fis Mehefin 2025 i ddarparu gwersi Cymraeg i rai o’r staff mewn tri cartref gofal yng ngogledd y sir.

Yn sgil llwyddiant ein cynllun Cyfeillion Cymraeg mewnol, bwriedir ehangu’r cynllun drwy chwilio am fwy o staff fyddai’n hapus i fod yn ‘gyfaill’ i eraill sydd eisiau cyfle i ymarfer neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae hwn yn gynllun anffurfiol sy’n rhoi cyfle ychwanegol i staff sy’n dysgu Cymraeg fedru defnyddio eu sgiliau newydd yn y gweithle, yn y gobaith o gynyddu eu hyder i fod yn defnyddio mwy o Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd.